


LLAIS

Cofio Gwenallt

Cafodd cofiant i fardd enwocaf Cwm Tawe, Gwenallt, ei lansio'n swyddogol yn Nhŷ'r Gwrhyd, Pontardawe, ar nos Wener 14 Hydref. **Cofiant D. Gwenallt Jones 1899 - 1968** yw ffrwyth ymchwil diweddaraf y Prifardd Alan Llwyd, sy'n Athro yn Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe. Roedd Tŷ'r Gwrhyd dan ei sang ar gyfer y lansiad a oedd yn cynnwys cyfle i glywed llais Gwenallt ar glip a gynhyrchwyd gan gwmni Telesgop, sgwrs rhwng Alan Llwyd a'r Athro Daniel Williams o'r Alltwen, a darlenniad o gerdd Gwenallt 'Sir Gaerfyrddin' gan Ffion Lowe, un o ddisgyblion Canolfan Gwenallt Ysgol Gyfun Ystalyfera. Portread o fardd gwrthryfelgar ac o lenor aflonydd a geir yn y cofiant hwn. Mae'n taflu goleuni newydd ar yrfa, bywyd a gwaith Gwenallt a fagwyd ym Mhontardawe a'r Alltwen gan gyfeirio'n helaeth at y cyfeillion a'r ffigyrau o Gwm Tawe a fu'n ddylanwad arno. Ymhlith y gynulleidfa roedd Betsi James, merch Albert Davies a fu'n gyfaill oes i Gwenallt ers ei ddyddiau ysgol yn yr Alltwen. Bu ysgrifau hunangofiannol Albert Davies am anturiaethau'r ddau o ddefnydd mawr i'r awdur yn enwedig ynghylch carcharu Gwenallt adeg y Rhyfel Byd Cyntaf. Diolchodd Alan Llwyd i drigolion y Cwm a fu'n ei gynorthwyo gyda'i ymchwil, yn benodol Nest Davies o'r Alltwen, Nest Hamer, nith Gwenallt sy'n byw yng Nghastell-nedd, a Gareth



Y Prifardd Alan Llwyd a'r Athro Daniel Williams

Richards o Glydach. Meddai Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi ar y noson: "Braint oedd cael cynnal y digwyddiad hwn ac roedd yn gwbl addas ein bod yn dathlu cyfrol arbennig yr Athro Alan Llwyd ar Gwenallt yn Nhŷ'r Gwrhyd, â'r ganolfan ynghanol bro mebyd y bardd ym Mhontardawe. O fewn Tŷ'r Gwrhyd mae englyn gan Alan Llwyd sy'n cyfeirio at Gwenallt, gan ddweudNi bydd Gwenallt yn alltud mwy'n ei gwm, nac iaith dyddiau'i febyd, na'r Gweithiau ar gau i gyd tra agorir Tŷ'r Gwrhyd.ac mae noson fel noson y lansiad yn sicrhau bod Cymreictod a threftadaeth Cwm Tawe a'r cylch yn cael eu dathlu a'u hamlygu o fewn canolfan sydd wedi ei chreu'n bwrpasol i ennyn balchder yn y pethau hynny."

Sioned Williams



Ymysg y llyfrau a ddarllenais dros yr haf roedd dwy gyfrol arbennig.

Y gyntaf oedd *John Preis* gan Geraint Jones sydd yn rhoi portread i ni o un o grwydriaid olaf a mwyaf nodedig Cymru. Ynddi cawn straeon lliwgar a hiwmor iach sydd yn ein tywys yn ôl at gymeriad a chymdeithas sydd erbyn hyn wedi diflannu. Oherwydd hyn cawn yma gofnod hanesyddol a chymdeithasol blasus dros ben. Rhyfeddol yn wir oedd darllen am ei anturiaeth ar lawer achlusur yn cerdded drwy Dwnel Merswy neu fel y byddai ef yn ei alw 'Hen 'sglyfath Dwill Mawr'. Iddo ef doedd y twnel yn ddim amgenach na rhywle i hwyluso cerddediad crwydryn ar hyd y Jóseffwt (y ffordd) i'r ddinas ddihenydd. Gan fod fy nhad yn gweithio i'r Swyddfa Bost roedd yn gyfarwydd iawn â John Preis a sawl un tebyg. Yn aml iawn byddent yn taro heibio'r Post i ofyn cardod gan y wladwriaeth. Roedd fy nhad yn edmygydd mawr o ddoethineb a dycnwch y cymeriadau unigryw yma - y 'Knights of the Road'. Byddai'n aml yn ein hatgoffa i barchu'r crwydryn os deuai heibio.

Yr ail gyfrol oedd *The Gentle Art of Tramping* gan Stephen Graham. Cyhoeddwyd y gyfrol am y tro cyntaf ym 1927 ac mae'n sôn am y pleser o gael cerdded yn rhydd heb unrhyw ofid yn y byd. Mae'r penodau yn eu tro yn trafod pynciau megis y ddawn o ddiogi, coginio, a chaneuon i'w canu wrth gerdded. Er bod bron i 90 mlynedd er ei chyhoeddi mae themâu'r gyfrol mor berthasol ag erioed. Er bod arddull ysgrifennu'r gyfrol yn 'hen ffasiwn' erbyn hyn, ceir ynddi gyngor ar sut i sychu dillad yn dilyn trochfa a sut i gynnau tân yn y gwyllt. Ceir ynddi sawl perl megis: 'if you want to find out about a man go for a long

tramp with him' a 'the road shows sturdiness, resourcefulness, pluck, patience, energy or per contra the lack of these things.' Buddiol hefyd yw ei gyngor i rai ar fin priodi: 'you cannot tell till you've spent a night in the rain or lost the way in the mountains and eaten all the food whether you have both stout hearts and a readiness for every fate'!

I gerddwr fel fi braf felly oedd darllen am astudiaethau a gyhoeddwyd gan y *Cosmic Scientist* yn ddiweddar. Craidd yr astudiaethau yw bod treulio amser yn cerdded allan yn y wlad yn llesol i ni gyd. Pwysleisia'r astudiaethau fod cael cyfle i gerdded mewn lle gwledig yn ein gwaredu o feddyliau negyddol sydd yn eu tro yn gallu achosi pryder a thensiwn gan effeithio ar safon ein bywyd beunyddiol. Y pwyslais mawr yw sylwi ar fyd natur.

Noda'r astudiaeth bwysigrwydd cerdded am awr a hanner yn y wlad er mwyn lleihau posibilrwydd dioddef salwch meddwl tebyg i iselder ysbryd. Pwysleisiwyd nad yw'r manteision hyn i'w cael wrth gerdded mewn tref neu ddinas. Nodwyd hefyd bod cael cyfle i fod allan yn y wlad yn rhydd o grafangau technoleg yn cryfhau a chynyddu'r gallu i ddatrys problemau yn ymarferol. Nododd yr astudiaeth fod amgylchedd tref neu ddinas, ynghyd â thechnoleg, yn gallu bod yn niweidiol i'r emosiynau gan eu bod yn mynnu ein sylw. Y cyngor yw i waredu eich hunan o declynnau technoleg er mwyn i chi ganolbwyntio ar brosesau'r ymenydd a'r ymwybod. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at gyflwr meddwl clir ac yn sicrhau eich bod yn ymlacio a chysgu'n well.

Wel, wedi darllen yr holl wybodaeth yna, does dim amdani felly ond i chi gydio yn eich sgidiau cerdded, a bant â'r cart, gan anelu am y tiroedd agored a'r bryniau yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf yn hytrach na phydru'n tŷ.

Dewi Lewis

D. a W. THOMAS

Garej Capel Road, Clydach, Abertawe

Ffôn: 01792 842529

Busnes teuluol ers 1968

CEIR O SAFON

Prisau rhwng £1,500 - £15,000

Gwasanaeth ac MOT ar bob un

Ceir lleol yw'r mwyafrif

Pam prynu car newydd os oes rhai 3 mis oed ar gael am bris rhesymol?

Good quality cars in stock

from £1,500 - £15,000.

All serviced with MOT.

Mostly local cars.

MOT

£39.50

with this voucher

Gostyngiad arbennig i ddarllenwyr y Llais

CORNEL NATUR

DEWI LEWIS

UCHAFBWYNTIAU ENLLI 2016 (1)

Ail wythnos mis Medi oedd hi. Ar fore Sadwrn cefais gyfle unwaith eto i groesi'r swnt a morio i Ynys Enlli. Roedd hi'n fore braf wrth i ni hwylio o Borth Meudwy a rhagolygon y tywydd yn ffafriol ar y cyfan. Erbyn y dydd Sul roedd pethau wedi newid rhywfaint gyda'r gwynt wedi dechrau cynyddu.

Erbyn y dydd Llun roedd y tywydd yn arw gyda'r gwynt yn chwythu'n gryf o gyfeiriad y gogledd orllewin. Doedd dim gobaith y byddai unrhyw gwch yn mentro croesi'r swnt am Enlli y diwrnod hwnnw. Prin iawn hefyd fyddai'r cyfleon i wyllo adar y tir gan eu bod mwy na thebyg yn ceisio cysgod mewn gwrychodd a llwyni rhag cryfder y gwynt. Doedd dim arall amdani felly ond anelu at un o'r cuddfannau gwyllo adar sydd ar yr ynys i wyllo adar mor a fyddai'n mudo heibio. Gan fod y gwynt yn chwythu o gyfeiriad y gogledd, y dewis oedd mynd i'r guddfan sydd wedi ei lleoli ar arfordir gogleddol yr ynys.

O'r guddfan honno roedd gennym olygfa eang o'r môr gyda'r lwerddon i'r gorllewin, Ynys Môn i'r gogledd a Sir Benfro i'r de. Yn anffodus trodd y diwrnod yn ddiwrnod tebyg i ffrwydriad mewn chwarel lechi a phrin oedd yn bosibl gweld ymhellach na chanllath ar adegau. Ar adegau teimlais fel R.S Thomas yn ei gerdd

*"Grey waters, vast
as an area of prayer
that one enters.
Sea-watching*

Yn y guddfan roedd y gwyllo yn boenus o lafurus gan ei bod yn anodd gweld dim trwy'r niwl trwchus a thonnau mawrion y môr. Gwelwyd ambell sgiwen y gogledd (*arctic skua*) yn gwibio heibio ond ar y cyfan digon diflas oedd hi.

Yna yn sydyn craffodd un o'r gwylwyr ar symudiad ymysg y tonnau tua chanllath o'r tir. Roedd rhywbeth eitha' mawr i'w weld yn arnofio ar wyneb y môr. Mewn chwinc roedd pedwar telesgop ar y 'creadur' oedd yn arnofio.

Morlo (*seal*) neu forfil (*whale*)? Wel, yn wir yr hyn oedd yno oedd crwbân môr cefnlledr (*leather-back turtle*); clamp o greadur oedd yn mesur oddeutu wyth troedfedd. Dim ond am tua munud y bu yno cyn iddo blymio



unwaith eto i'r eigion. Wrth gasglu cofnodion y noson honno daeth i'r amlwg mai dyma'r cofnod cyntaf o'r crwbân môr cefnlledr oddi ar arfordir Ynys Enlli er 2011 a gwelwyd hwnnw gan griw arall o adarwyr o'r union guddfan - rhyfedd o fyd! Ymwelydd gweddol brin ag arfordir Prydain yw'r crwbân môr cefnlledr gyda 38 o gofnodion yn unig yn ystod 2007. Ym 1988 cafodd crwbân môr cefnlledr ei olchi i'r traeth yn Harlech, Gwynedd. Yn anffodus roedd wedi marw ar ôl iddo gael ei ddal mewn offer pysgota. Amcangyfrifwyd ei fod tua 100 mlwydd oed, yn naw troedfedd o hyd ac yn pwso 914 kilo. Mae'r crwbân hwnnw wedi cael ei arddangos yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ers sawl blwyddyn. Deiet sylfaenol crwbân môr cefnlledr yw pysgod jeli (*jellyfish*) a bydd yn treulio'i amser yn dilyn heidiau o'r pysgod er mwyn cael bwyd. Y tebygolrwydd yw bod y creadur hwn oddi ar arfordir Enlli yn dilyn haid o bysgod jeli ynghanol y dymestl. Yn anffodus mae nifer o'r crwbânod môr cefnlledr yn marw yn flynyddol o ganlyniad i lyncu bagiau plastig sydd yn edrych yn debyg iawn i bysgodyn jeli mewn môr. Ffawd yn wir ein bod ni wedi cael y fraint o weld creadur mor brin yn ystod orig ddiflas o wyllo adar!

POBOL Y CWM

MR UDDIN

Rwyf yn hoff iawn o fwyta cyri, yn enwedig Madras. Newyddion da felly oedd clywed bod y Clydach Tandoori, sef bwyty Indiaidd yn ailagor yn ystod mis Hydref. Braf oedd deall ymhellach fod y bwyty yn ailagor dan berchnogaeth y perchennog gwreiddiol, neb llai na Mr Uddin. Pan symudais i Glydach yn 1989 roeddwn yn gwsmer selog yn y bwyty, a thros y blynyddoedd deuthum i werthfawrogi sgysiau gyda Mr Uddin. Mae'n ddyn o natur addfwyn ac yn hoff iawn o sgwrsio a thrafod. Roedd hefyd yn hael iawn, ac yn ddi-ffael byddai'n rhoi lolipop i'r bechgyn bob tro y deuent i lawr i gasglu'r archeb.



Mewn gwirionedd taith bywyd Mr Uddin yw'r Clydach Tandoori. Daeth Mr Uddin i Brydain pan oedd ond yn bymtheg oed ar ddechrau'r 1970au. Gadawodd ei rieni a'i deulu yn ôl ym Mangladesh i geisio bywyd gwell. Dysgodd ei grefft trwy weithio mewn nifer o fwytai Indiaidd yn Llundain cyn iddo symud i Abertawe gan sefydlu yno am gyfnod. Wedi iddo weithio mewn bwytai yn Abertawe am sawl blwyddyn dychwelodd i Fagladesh i briodi. Mae'n dad balch i chwech o fechgyn.

Mae Mr Uddin yn adnabyddus ar hyd a lled De Cymru fel gŵr o ysbryd gostynedig ond entrepreneuriaidd. O ganlyniad i'w brofiad yn gweithio yn Llundain a thu hwnt, datblygodd ffîlêr yn y busnes bwytai Indiaidd.

Sefydldd ei fusnes cyntaf yn Nhreforys yn ystod y 1970au sef bwyty Mothijeeel Tandoori ar Stryd Woodfield. Roedd y bwyty yn lwyddiant ysgubol a buan y daeth pawb yn gyfarwydd â phrydau blasus Mr Uddin.

Yn 1988 agorodd ei fwyty yn Ffordd Hebron, Clydach, sef yr enwog Clydach Tandoori.

Yn 2003 gosododd Mr Uddin y busnes ar brydles a chymysglwyd iawn fu hanes y siop wedi hynny, gyda nifer o unigolion dros y blynyddoedd yn cynnal y busnes yno dan nifer o enwau gwahanol. Yn y cyfamser bu Mr Uddin yn brysur yn datblygu sawl busnes arall yn Abertawe gyda safleoedd yn y Sandfields, Waun Wen, Townhill a'r Stryd Fawr yn Abertawe.

Er bod Mr Uddin wedi ymdddeol ers dros ddeng mlynedd mae ei feibion am barhau'r traddodiad o goginio prydau blasus i drigolion y Cwm. Erbyn hyn wrth gwrs, mae byd busnes ac offer coginio wedi datblygu a'i foderneiddio ond mae Mr Uddin wedi trosglwyddo'i grefft a'i ryseitiai i'w feibion sydd am ddatblygu'r busnes o hyn allan. Yn sicr fe fydd Mr Uddin yn cadw llygad barcud ar y lle ac yn cynghori a chyfarwyddo'i feibion.

Rwyf yn edrych ymlaen unwaith eto i flas Madras Mr Uddin a chael cyfle i daro sgwrs gyda'r meist'r ei hun. Does ond gobeithio y bydd y fenter newydd yn llwyddiant i'r teulu ac y bydd gwledigaeth ac ysbryd Mr Uddin yn parhau.

Er mai brodor o Fagladesh yw Mr Uddin mae'n llawn haeddu cael ei gyfrif yn un o Bobol y Cwm.

Dewi Lewis

Golygydd mis Tachwedd

Rhian Llewelyn

Newyddion i'r canlynol os gwelwch yn dda:

**Gareth Richards, Gwasg Morgannwg
Ystad Ddiwydiannol Mynachlog Nedd
Castell-nedd, SA10 7DR**

neu e-bost papurbrollais@gmail.com

Erbyn Tachwedd 20fed 2016 os gwelwch yn dda.

COF Y CWM

Steven Thompson

Meddygaeth lysieuol a rhyddid meddygol yn y Cwm

Mewn rhifyn cynharach o Cof y Cwm, rhoddwyd sylw i agwedd o hanes meddygaeth lysieuol yn y cwm. Fel yr adroddwyd, cyhoeddwyd *Y Llysieu-lyfr Teuluaid* ym 1849, llyfr a ysgrifennwyd gan Rhys Price, gweinidog Capel yr Annibynwyr, Cwmllynfell, er mwyn lledaenu bendithion honedig y gyfundrefn feddygaeth amgen hon i'r werin bobl. Bwriad y llyfr, a'r nifer mawr o lyfrau hunanymorth meddygol eraill a gyhoeddwyd, oedd tarfu ar fonopoli meddygon 'gwyddonol' a gwneud 'pob dyn ei feddyg ei hun'.

Roedd cyfundrefnau meddygaeth amgen yn boblogaidd dros ben yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mewn cyfnod cyn bod meddygaeth 'wyddonol' yn effeithiol iawn a phan nad oedd llawer o ymddiriedaeth yng ngalluoedd meddygon. Datblygodd meddygaeth yn gyflym iawn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a, thra bod gwyddonwyr a meddygon erbyn hynny yn deall y corff yn well ac yn darganfod beth oedd achosion llw o glefydau a chyflyrau, nid oedd llawer o feddyginiaethau neu driniaethau effeithiol ar gael i feddygon yn eu hymdrechion i iacháu neu wella cleifion. Mewn gwirionedd, dim ond yn ystod canol yr ugeinfed ganrif, pan ddaeth cyffuriau gwrthfacterol a gwrthfotig i fodolaeth, y daeth meddygaeth yn fwy effeithiol yn y frwydr yn erbyn afiechydon.

Ond, er gwaethaf y datblygiadau a'r gwelliannau hyn, roedd llawer o bobl yn parhau'n amheus am natur a dulliau meddygaeth a meddygon, ac, yn hytrach, yn parhau i ffafrio dulliau meddygaeth amgen, gan gynnwys homeopathi, osteopathi a llysieuath feddygol. Teimlai rhai mewn cymdeithas bod y cyfundrefnau hyn yn well na meddygaeth wyddonol oherwydd yr ystyriaeth a roddid i'r person cyfan yn lle'r symptomau, i iechyd yn lle salwch, ac i'r claf yng nghyd-destun eu bywydau a'r byd yn lle'r unigolyn mewn gwagle.

Felly, er gwaethaf yr holl newidiadau a drawsnewidiodd feddygaeth yn y blynyddoedd a'r degawdau wedi cyhoeddi *Y Llysieu-lyfr Teuluaid* ym 1849, roedd llysieuath yn parhau'n boblogaidd yng Nghwm Tawe erbyn degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif ac yn fudiad bywiog yn y cyfnod rhwng y rhyfeloedd. Mewn gwirionedd, byddai llawer o gleifion yn mynd i weld meddygon confensiynol yn ogystal â llysieuwyr erbyn y cyfnod hwn, yn dibynnu ar natur y salwch neu'r cyflwr, neu'n dibynnu ar farn y claf ar alluoedd yr ymarferwr i drin y salwch dan sylw.

Ar un lefel, defnyddiwyd triniaethau llysieuol gan bob teulu fel rhan o *materia medica* y cartref. Defnyddiwyd olew olewydd twym i drin clust dost, er enghraifft, roedd finegr a phapur brown yn gyffredin wrth drin cleisiau, codau senna neu surop o ffigs i agor y coluddion, clofs ar gyfer y ddannoedd, saim gwyddau i drin gwddf tost, ac yn y blaen. Yn ogystal â'r defnydd o berlysiâu a moddion eraill yn y cartref yn y modd hwn, roedd gan bron pob stryd neu gymuned yn ne Cymru rhyw wraig a oedd yn arbenigo mewn trin gwahanol glefydau neu gyflyrau, yn aml trwy'r defnydd o berlysiâu.

Un o'r menywod hyn yng Nghwm Tawe oedd Ann Hughes o Gwmgiedd. Mewn erthygl ar alluoedd Ann, a gyhoeddwyd ym 1910, adroddwyd ei bod wedi bod yn iachawraig yn y cwm ers 42 o flynyddoedd a'i bod yn hynod o effeithiol wrth drin llosgiadau, sgaldiadau a gwenwyn gwaed trwy fodd ei elïoedd a'i phlastrau arbennig. Fel yr oedd yn nodweddiadol o iachawyr amgen eraill, nid oedd Ann Hughes yn awyddus i dderbyn arian

am ei thriniaethau, er gwaethaf y ffortiynau y gallai eu casglu. Ond un arwydd o statws a phwysigrwydd Ann yn ei chymuned, oedd y ffaith i gynrychiolwyr yr holl byllau glo yng nghyffiniau Cwmgiedd ddod ynghyd i gasglu digon o arian er mwyn cynnal cyngerdd yn ei henw a chyflwyno iddi bwrs o aur a chyfarchiad goliwiedig (illuminated address) a dalai deyrnged i'w galluoedd a'i chyfraniad i'r gymuned. Talwyd teyrnged iddi hefyd gan y meddyg lleol, Dr Walsh, a diolchodd Walsh iddi am ei hymdrechion ar ran rhai cleifion a oedd dan ei ofal ef, gan ddangos eto nad oedd meddygaeth 'amgen' yn gwbl amgen trwy'r amser ac y gallai gyd-fyw'n ddedwydd â meddygaeth gonfensiynol ar adegau.

Gwraig arall a oedd yn bwysig yn y cwm oedd Gwenllian Thomas (Gwen o'r Berthlwyd). Cafodd Gwen ei geni yng Nghraig-y-Fforest, Ystalyfera ym 1834 ac yr oedd yn dal i weithio fel llysieuwraig ym 1935 pan gyhoeddwyd erthygl amdani hi yn *The Medical Herbalist*, cylchgrawn y mudiad llysieuol ym Mhrydain. Dywedwyd bod dealltwriaeth Gwen o berlysiâu heb ei debyg ac y meddai ar amynedd, agwedd bositif a pharodrwydd i gymryd gofal o unrhyw sefyllfa a ddeuai o'i blaen gan gymryd cyfrifoldeb yn syth. Yn ogystal, gweithredodd Gwen fel bydwraig yng nghymoedd Tawe a Nedd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif ac roedd hi'n falch o fedru dweud nad oedd hi wedi colli yr un fam na phlentyn yn ystod ei holl flynyddoedd yn helpu mamau i roi genedigaeth.

Ysgrifennwyd yr erthygl am Gwen o'r Berthlwyd yn *The Medical Herbalist* gan W. J. Gwyddonwy Evans, gŵr a hanaï o Ystalyfera hefyd. Mae bodolaeth y cyfnodolyn, a'r ffaith bod dyn o Gwm Tawe wedi ysgrifennu erthygl yn y cyfnodolyn yn taflu goleuni ar agwedd arall o'r mudiad llysieuol yn ystod y cyfnod rhwng y rhyfeloedd, sef yr adain fwy proffesiynol. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd llysieuath feddygol wedi profi proses o broffesiynoli – sefydlwyd cymdeithasau i hybu'r proffesiwn, cyhoeddwyd cyfnodolion i ledaenu'r wybodaeth ddiweddaraf, darparwyd cwricwla llysieuol mewn colegau ble roedd yn bosib i ymarferwyr dderbyn addysg ac ennill cymwysterau.

Roedd de Cymru a Chwm Tawe yn rhan bwysig o'r datblygiadau hyn. Daeth W. J. Gwyddonwy Evans yn ysgrifennydd cynorthwyol y Gymdeithas Genedlaethol o Lysieuwyr Meddygol ar draws Prydain. Yn ogystal, golygydd *The Medical Herbalist* oedd John Rees Yemm, llysieuwr o Rydaman a ddaeth yn Drefnydd Cenedlaethol yng Nghymru ym 1933 pan sefydlwyd cangen de Cymru o'r Gymdeithas Genedlaethol o Lysieuwyr Meddygol. Yn ddi-ddorol, dilynnodd Yemm gyrisiau mewn ffisiotherapi ac iachâd naturiol (naturopathy) mewn colegau arbennig i llysieuwyr a meddygon amgen eraill yn Chicago ac yn Iowa cyn dod yn ôl i Gymru i ymarfer. Un o ddatganiadau mwyaf nodweddiadol Yemm oedd 'Rwy'n credu mewn rhyddid meddygol'; hynny yw, credai Yemm y dylai pawb fod yn rhydd o rym ac awdurdod meddygon ac yn rhydd i fedru trin eu salwch neu eu cyflyrau eu hunain.

Yn y blynyddoedd wedi hyn, daeth meddygaeth lysieuol yn llai dylanwadol ac yn llai boblogaidd. Gwelid hyn, i ryw raddau, wrth i feddygaeth ddod yn fwy effeithiol ac wrth i bobl gyffredin gael eu perswadio eu bod hi'n werth gweld meddyg beth bynnag fo'r salwch. Hefyd, mae rhai haneswyr yn honni bod sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol wedi cynyddu grym meddygaeth o fewn cymdeithas ac awdurdod meddygon confensiynol. Erbyn heddiw, mae cyfundrefnau meddygaeth amgen wedi ail-ennill rhywfaint o gefnogaeth ac mae'n ddi-ddorol gweld bod meddygon yn anfon eu cleifion at ymarferwyr llysieuol a nodwyddo ar adegau. Wedi dweud hynny, nid yw llysieuath feddygol mor boblogaidd heddiw ag yr oedd pan yn ei anterth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Mae'n amlwg mai unigolion pwysig iawn yn eu cymunedau oedd Ann Hughes a Gwen o'r Berthlwyd ac roedd pobl gyffredin yn fodlon ymddiried yn eu sgiliau pan yr oeddent yn sâl, sgiliau sydd wedi'u colli bron yn llwyr yng nghymunedau'r cwm erbyn heddiw.

Os am gysylltu: sdt@aber.ac.uk



ABER-CRAF

Margaret Coombe yw gohebydd newydd y Llais ar gyfer Aber-craf, yn dilyn marwoeth Beryl Macho.

Mae modd cysylltu ar ei chyfeiriad ebost newydd : margaretbush55@outlook.com

Dyma sut mae Mags yn cyflwyno'i hun: "Rwy'n enedigol o Aber-craf, yn byw nawr yng Nghoelbren. Mae Siôn fy mab newydd ddechrau ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn astudio Geneteg a Biocemeg.

Merch i John a Beti Coombe, Tŷ Rahel, Aber-craf ydw i. Es i Ysgol Maesydderwen, Coleg Gorseinon ac yna Coleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan i astudio am radd yn y Gymraeg. Gwnes i PGCE 16+ er mwyn cael gyrfya yn y byd addysg ac i ddysgu oedolion.

Ar hyn o bryd, 'dw i ddim yn y byd addysg, ond yn chwilio! Na, 'nawr rwy'n ceisio gwerthu ffenestri, drysau, conservatories ac orangeries dros gwmmi Dunraven, rhan amser!

Hoffwn fynd yn ôl i weithio mewn ysgolion, felly cawn weld beth ddaw!"

MACMILLAN

Ar Ddydd Gwener 30 Medi, trefnwyd prynhawn teisenod MacMillan gan Catrin Davies, 14 oed, Tan yr Allt, Abercraf. Cynhaliwyd y prynhawn yn Neuadd Les y Glowyr, Abercraf.

Hoffai Catrin ddiolch i bawb a helpodd, a threulio'u hamser i baratoi teisenod o bob lliw a blas ar gyfer yr achlysur arbennig hwn. Mae'n ddiolchgar iawn hefyd am y rhoddion amrywiol ar gyfer y gwobrau raffl.

Mae Catrin yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gafodd hi gan bawb a fynychodd y prynhawn yn y Neuadd Les. Codwyd dros £250 o bunnod i'r elusen "Cronfa Nyrsio MacMillan".

Llongyfarchiadau Catrin, da iawn ti!

GRWP ADFYWIO ABERCRAF



Dyma lun o aelodau 'Grwp Adfywio Abercraf' a'u ffrindiau yn plannu bylbiau Cennin Pedr. Dyma'r bumed flwyddyn y cynhaliwyd yr achlysur hwn.

Hwyluswyd y gwaith caled yn fawr drwy'r lluniaeth ysgafn a roddwyd yn garedig gan Malcolm ag Eirwen Hopkins.

Rydyn ni'n ffaelu aros i weld y Cennin Pedr yn blodeuo y flwyddyn nesaf eto! Llauer o ddiolch i chi gyd, am eich gwaith caled dros y blynyddoedd diwethaf.

EL'S DRIVING SCHOOL

Newyddion da eto o glywed bod Eleri Jones 'El's Driving School', Caer-bont, yn dechrau 'n ôl. Byddwn yn falch i'ch gweld tu ôl i'r olwyn eto – wel, yn sedd y teithiwr!

DYMUNO WELLHAD

Dymunwn wellhad buan i Mr Clive Donovan, sydd wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod o salwch yn Ysbyty Singleton.

CYDYMDEIMLO

Flin i glywed am farwolaeth Mrs Walker, Caerbont. Cydymdeimlwn gyda'i gŵr, Cyril a'i mab Raymond. Cydymdeimlwn gyda'i holl deulu.

DIGWYDDIADUR

Ar Ddydd Sul 27 Tachwedd, bydd yna orymdaith lusernau o gwmpas y pentref. Bydd yr orymdaith yn dechrau am 4 o'r gloch o Swyddfa'r Post yn Abercraf. Wedyn am 5 o'r gloch bydd goleuadau'r goeden Nadolig yn cael eu cynnau a gwledd o ganu carolau. Yn dilyn y canu a'r carolau, mae gwahoddiad i bawb ymgynnull yn y Neuadd Les am luniaeth ysgafn.

Ar 3 Rhagfyr, o 10.30 a.m. hyd 12.30 p.m., bydd bore coffi yn cael ei gynnal yng Nghapel Bethlehem, Caer-lan, Aber-craf. Dewch yn llw i gael bargeinion yr ŵyl, disglaid a theisen a hwyl a sbri!

Dewch i Gapel Bethlehem ar Ddydd Sul 18 Rhagfyr am 4.00 p.m. i ddathlu'r Ŵyl, gyda'r Parchedig Clive Williams wrth y llyw. Cawn ddisglaid a mins pei ar ôl y gwasanaeth!

PEN-Y-CAE

Llongyfarchiadau mawr i Yan ac Enfys James Penycae ac i Owen a Christine ar enedigaeth eu hŵyr newydd! Ganwyd bachgen bach i Catrin a Hywel, Gorseinon, ar 28 Medi. Ei enw yw Noah Gwyn Owen Pugh, brawd bach i Millie a Maddy. Hyfryd clywed bod pawb yn iach. Mae hynny'n meddwl, wrth gwrs, fod Doug a Val James yn hen dadcu a mamgu eto. Newyddion da!

Bu dathliad mawr arall yn nheulu James, Pen-y-cae, y mid diwethaf wrth i Doug gyrraedd carreg filltir 80 oed. A chi, Mr James ddim yn edrych yn henach na 30 oed! Llongyfarchiadau mawr.

CAPEL TY'N Y COED

Rydyn ni'n falch i glywed bod Eirian Davies, Capel Tŷ'n y Coed wedi derbyn ei lawdriniaeth lwyddiannus yn Ysbyty Neville Hall, Y Fenni, ac yn awr yn ôl gyda'i deulu ac yn cael y gofal gorau ganddynt. Dymuna pob aelod o'r capel a'i ffrindiau ymhob man wellhad buan i Eirian. Edrycha pawb ymlaen i dy weld yn dy sedd arferol ac yn mwynhau cymryd rhan yn yr addoli. Croeso 'n ôl Eirian!

COELBREN

Y NEUADD LES

Cafwyd hwyl a sbri a bwganod dychrynlyd yn Neuadd Les y Glowyr ar 21 Hydref yn y disgo ar gyfer Calan Gaeaf. Roedd yna wobwr am y wisg ffansi orau a dim ond £1 oedd hi i ymuno â'r wledd. Roedd yna gemau, raffl, cŵn poeth a losin ar gael i helpu bawb i fwynhau!

Ar Nos Sadwrn 22 Hydref, trefnwyd Haflla Calan Gaeaf gan Carol Weathers, athrawes bolddawnsio Coelbren. Cafwyd llawer o hwyl yn dawnsio a gwyllo'r grwpiau talentog yn bolddawnsio yn eu gwisgoedd anhygoel a lliwgar. Os hoffech chi ymuno â'r gwersi bolddawnsio, edrychwch isod, mae'n wych i'ch iechyd a'ch corff, heblaw am yr hwyl a gewch chi yn y gwersi! Da iawn 'ladies'!

Cadwch eich llygaid ar agor i weld beth sy'n digwydd yn y Neuadd Les. Mae'r Nadolig yn dod a bydd cymaint o bethau yn cael eu cynnal yna, felly ceisiwch gefnogi eich Neuadd!

Bydd disgo Nadolig i blant yn cael ei drefnu, er nad oes dyddiad i hwnnw eto, felly byddwch yn barod gyda'r gwisgoedd!!

Eto eleni, bydd dathliad amloedran i groesawu'r flwyddyn newydd yn y Neuadd Les. Bydd mwy o fanylion a'r tocynnau ar gael cyn bo hir.

GWEITHGAREDDAU CYSON YN NEUADD LES Y GLOWYR COELBREN

- Pob dydd Llun am 6.15 p.m.: Grŵp Theatr Coelbren i blant.
- Ail Ddydd Mawrth bob mis am 1.30 p.m.: Cangen Pensiynwyr Coelbren.
- Pob dydd Mercher am 10.15 a.m.: Bore Coffi.
- Pob nos Fercher am 7 p.m.: Gwersi Bolddawnsio.
- Pob dydd Iau am 12.30 p.m.: Clwb Crefft.
- Pob nos Wener, bydd y bar ar agor o 7 p.m.
- Ar ddydd Sadwrn 26 Tachwedd am 10.00 a.m. yn y Neuadd, bydd y Cyngorydd David Arnold Thomas ar gael i ateb eich cwestiynau ac i helpu gydag unrhyw broblemau. Y nesaf wedyn fydd dydd Sadwrn 21 Ionawr am 10.00 a.m.

Os oes problem gyda chi i gyrraedd Coelbren, ffoniwch 01639 730033 er mwyn siarad â'r Cyngorydd.

Dyma rifau ffôn Cyngorwyr Cyngor Tawe Uchaf:-

Cyngorydd y Sir : David Thomas – 01639 730 033

Clerc y Cyngor: Elwyn Gwilym – 01639 843003

Ebost :- taweuchaf@yahoo.co.uk

Steve Davies (Cadeirydd): 01639 701508

Carol Williams: 01639 730250

Arlene Jones: 01639 730160

Auriol Graham: 01639 700586

Gareth Hayton: 01639 730627

Diolch i baw sydd wedi helpu i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn. Gwnaf fy ngorau glas i gasglu gymaint o wybodaeth ag y gallaf er mwyn i chi wybod beth sy'n digwydd yn yr ardal.

Os hoffech roi unrhyw wybodaeth am ddigwyddiadau yn Aber-craf, Coelbren, Pen-y-cae neu Ynys-wen yn y Llais, rhwch wybod i mi, Mags Coombe ar 01639 701 331 a gadewch neges ar y peiriant ateb, cyn y 15fed o bob mis.

Diolch o galon.

YSTRADGYNLAIS

PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Marilyn a Roger Ingham, Heol Bryn a dathlodd yr achlysur ar 8 Hydref. Yr un dymuniadau da hefyd i Carol ac Eurof Hughes a dathlodd ar 15 Hydref. Cynhaliwyd y ddwy briodas yng nghapel Ainon.

APÊL NADOLIG - BLWCH ESGIDIAU

Os hoffai rhywun gyfrannu at yr apêl Nadolig, y dyddiad cau yw 10 Tachwedd. Cysylltwch â Marilyn ar 01639 844312 neu Carol ar 730597.

MARWOLAETHAU

Yn Ysbyty Treforys ar 25 Medi yn 93 oed bu farw David Charles Morgan, Heol Aberhonddu, ewythr, cefnder a frind annwyl a fyddlon.

Ar 2 Hydref yn Ysbyty Treforys, bu farw Doug Rowe, Maes-y-cwm, priod y ddiweddar Mary, tad Susan a Dorian, tad yng nghyfraith Wynne, brawd Ann, brawd yng nghyfraith Pat a Ray.

Yng nghartref Cwrt Enfys ar 9 Hydref bu farw Agnes Davies, gyt o Heol Gïedd, priod y diweddar Mal, mam John a Caroline, mam yng nghyfraith Carol a John, mamgu a hen

famgu James, Robert, Lucy, Jade, Siân, Rhian ac Osian, chwaer Rosslyn a Catherine.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd hyn yn eu hiraeth a'u galar.

DRINGO I GODI ARIAN

Yn ystod gwyliau'r haf aeth Katy, merch Bethan a Paul Edwards, Parc Tawe ynghyd â nifer o'i chydyfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth i ddringo Kilimanjaro. Y pwrpas oedd codi arian i gronfa *Dig Deep*, elusen sy'n darparu dŵr glân i brosiectau yn Tanzania a Kenya. Drwy ei hymdrech codwyd £2,000 i'r gronfa. Da iawn ti, Katy.



CYNGERDD HEDD WYN YN YR YSTRAD

"Dyna beth oedd cyngerdd da!" "Y gorau eto!" "Pryd mae'r nesa?" Dyna rai o'r sylwadau a glywyd ar ôl y gyngerdd a gynhaliwyd yn y Neuadd Lês ar nos Sadwrn, 10 Medi. Roedd Côr y Gyrlais wedi gwahodd Côr Rygbi Gogledd Cymru i uno gyda nhw mewn cyngerdd i godi arian at gael Coffadwriaeth i Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans), bardd y Gadair Ddu a laddwyd ar faes y gad yn Fflandrys yn 1917, ychydig wythnosau cyn gallu derbyn y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Penbedw.

Yr artistiaid gwadd oedd Rhys Meirion y tenor byd-enwog, a'r telynor rhyngwladol enwog Dylan Cernyw. Arweinydd y noson oedd Toni Caroll, yr actores a'r ddigrifwraig leol ac fe gadwodd y noson i symud yn ei blaen yn hwylus.

Dechreuwyd y gyngerdd drwy gyd-ganu yr Anthem Genedlaethol. Yna daeth Côr y Gyrlais, dan arweiniad Glyn Williams, y cyfarwyddwr cerdd, a Christopher Evans yn cyfeilio, i ganu 'Sanctaid', 'Nice n' Easy' a'r 'Tangnefeddwyr'. I ddilyn cafwyd hunan-ddewisiad o alawon enwog gan y telynor, Dylan Cernyw. Yna daeth Rhys Meirion i'r llwyfan i ganu ei ddewis o alawon Cymreig ac unawdau eraill. Daeth y rhan gyntaf i ben wrth i Gôr Rygbi Gogledd Cymru swyno'r gynulleidfa gyda'u dewis o ganeuon, a'r dorf yn uchel eu canmoliaeth.

Côr Rygbi Gogledd Cymru agorodd yr ail ran gyda mwy o'u hunan ddewis, a'r gwerthfawrogiad yn frwd.

Yna, aeth y golau'n isel a phawb yn canolbwyntio ar Gadair Eisteddfodol a orchuddiwyd gan liain du. Ar hyn gwahoddwyd y gynulleidfa i sefyll yn dawel am ychydig i feddwl tra'n gwrandao ar gerddoriaeth 'Nimrod'. Darllenodd Peter Carter Jones, BEM ei farddoniaeth ei hun: 'Flanders Soil' a darllenodd Toni Caroll farddoniaeth am Hedd Wyn. Canodd Côr y Gyrlais "Tell my father" gyda Rhys Meirion yn ymuno â hwy. Yna, cafwyd dwy funud o dawelwch. Ymunodd Rhys Meirion gyda'r

Gyrlais i ganu 'Anfonaf Angel' ac 'O Gymru'. Bu hyn oll yn brofiad teimladwy. Daeth Côr Rygbi Gogledd Cymru i'r llwyfan ar gyfer y cyflwyniadau. Daeth y noson i ben wrth i bawb ganu 'Hen wlad fy nhadau'. Bu'n gyngerdd ardderchog.

CÔR Y GYRLAIS AR YR M4 ETO

Pan ddaeth yr alwad oddi wrth Geraint Jenkins, cyn-athro yng Ngholeg De Stafford, i fynd yno i ganu mewn cyngerdd i godi arian at elusen CHECK, 'doedd dim oedi, â'r ateb oedd "gwnawn". Mae'r elusen yn helpu plant Kimili i gael addysg a gofal iechyd. Ddydd Sadwrn, 8 Hydref roedd y Côr ar eu taith, ac yn siwr o'r croeso fyddai yn eu disgwyl.

Am 5 o'r gloch, roeddent yn mwynhau pryd blasus o fwyd a baratowyd ar eu cyfer gan staff a ffrindiau'r coleg. Wedi ymarferiad byr a newid i'w iwnniform roeddent yn barod i ddechrau'r gyngerdd. Roedd neuadd yr ysgol yn llawn, gyda mwy na 300 yn y gynulleidfa. Hefyd yn cymryd rhan oedd Côr Cymuned Caterham dan arweiniad Sarah Fisher a thriawd o'r coleg yn chwarae piano, feiolin a soddgrwth.

Wedi canu'r anthem genedlaethol, cyflwynodd Geraint y ddau gôr a'r triawd i'r gynulleidfa. Y Gyrlais agorodd y gyngerdd dan arweiniad y cyfarwyddwr cerdd Glyn Williams, a Christopher Williams yn cyfeilio. Canwyd 'Sanctaid', 'Make you feel my love' a 'Dashenka'. Roedd y gynulleidfa yn amlwg wrth ei bodd, eu hwynebau'n hapus a'r cymeradwyo'n frwd. Canodd y Côr ddeg o ganeuon yn cynnwys 'Myfanwy', 'Pan fo'r nos yn hir', 'Nice 'n easy', 'Tell my father', 'O Gymru' a 'Dros Gymru'n gwlad' a phob un yn cael derbyniad gwresog. Ar ôl y gân olaf daeth cais am fwy - a'r côr yn ymateb drwy ganu 'Gwahoddiad'.

Canodd Côr Cymuned Caterham bum cân yn cynnwys 'The Rose' a 'Hit the road Jack' ac fe gafwyd dwy eitem gan y triawd. Darllenodd Geraint bedwar e-bost gan y pedwar prifathro yn Kimili yn gwerthfawrogi'r gwaith gwyhych a wnaed gan Geraint a'i dîm dros y blynyddoedd. Bu'r gyngerdd yn fodd i godi £2,000 ac fe ddefnyddir yr arian i brynu llyfrau, papur 'sgrifennu a gwneud ychydig o waith adeiladu ar yr ysgolion yn Kimili.

Wedi'r gyngerdd, aeth y Côr yn ôl i'r gwesty yn hapus, gan wybod eu bod wedi gwneud rhywbeth a fydd o help i blant Kimili.

Ddydd Llun, 24 Hydref, bydd y Côr yn teithio i wlad Belg a'r noson ganlynol yn canu wrth y 'Menin Gate' lle mae'r "Last Post" yn cael ei chwarae am 8 o'r gloch. Byddant yn canu wrth y Gofeb Gymreig ac wrth fedd Hedd Wyn. Yna nos Lun, byddant yn canu mewn cyngerdd yn Eglwys Bachy, ger Lille ac yn dychwelyd ddydd Gwener, 28 Hydref.

YSTALYFERA

PANT-TEG

Blin iawn oedd gennym glywed y newyddion trist ac annisgwyl am farwolaeth Valmai Lewis, un o'n haelodau ffyddlon. Roedd Valmai yn aelod cefnogol a phob amser yn barod i gymryd rhan mewn gwasanaeth. Bu'n aelod ffyddlon o Gangen Ystalyfera, Merched y Wawr a Chymdeithas yr Henoed. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i perthnasau a'i chyfeillion agos.

Cofiw'n hefyd am un arall o'n ffyddloniaid y cawsom gyfle i dalu teyrnged iddi yn ei hangladd yn ddiweddar, sef Marian Davies, Craig y Merched. Daeth Marian atom wedi cau Eglwys Soar a phrofodd yn aelod gweithgar a gwerthfawr iawn. Bu'n Ysgrifenyddes y Chwiorydd am nifer o flynyddoedd ac yn ei thro yn Llywydd Chwiorydd Eglwys Ystalyfera.

Coffa da am y ddwy ohonynt: Valmai a Marian.

LLONGYFARCHIADAU

Dymuniadau gorau i Bill Gannon ar dderbyn ysgoloriaeth i ddilyn cwrs doethuriaeth ym mhrifysgol Abertawe. Mae ein dyled fel Eglwys yn fawr i Fiona, Bill a Llywelyn am eu ffyddlondeb a'u cymorth i ni ym Mhantteg.

RHAGLEN TELEDU RHYS MEIRION

Roedd rhaglen gyntaf *Deuawdau Rhys Meirion* o ddi-ddordeb arbennig i bobl ardal Pantteg a rhan uchaf Godrergraig, oherwydd ei 'westai' oedd un ohonom ni, sef Huw Chiswell. Gwelsom Huw yn ei gartref yng Nghaerdydd yna yng nghartref ei fam, Caryl, ac yn hoff fannau ei blentynodod - mynydd Alltgrug lle hoffai grwydro - y Gapel a'r Festri a safle'r Ysgol Gynradd gynt. Lle arall yn agos at ei galon oedd y Gored ac yr Afon Tawe lle fyddai'n mynd i bysgota. Mae'n sicr bod y rhaglen wedi dod â nifer o atgofion melyn i'r rhai hynny sydd, fel Siôn, yng nghân Huw 'wedi gadael y Cwm'. Roedd yn arferiad cyson gan blant Ysgol Gynradd Pantteg gynnal gwasanaethau yn y Capel a hefyd ambell gyngerdd yn y Festri. Wedi ymweld â'r ffilm *Oliver* yn Abertawe dyma benderfynu i fynd ati i berfformio'r sioe ar lwyfan y Festri - ac yn y rhaglen gwelwyd llun o rai o'r bechgyn yn y sioe - ac yn eu plith Huw - yn chwarae rhan *Oliver*. A'i dyma ei 'debut' yn y byd canu tybed! Mae'n siwr i'r llun yma ddod ag atgofion i Mrs Gwen Davies, yr Alltwen, hefyd. Roedd hi'n athrawes yn yr Ysgol ar y pryd ac wedi cynorthwyo gyda'r sioe.



COFIO ISLWYN

Diolch i Bwyllgor Gronfa Dafydd Rowlands ym y noson i gofio a dathlu gwaith Islwyn Williams ac am ei gynnal yn Ystalyfera, pentre Islwyn a chefnid ei storïau. Roedd yn ddiddorol gweld yr hen ffilmiau a'r ffilm 'Boio' yn enwedig am y farchnad ddu adeg y Rhyfel. Roedd siwr o fod wedi dod ac ambell atgof i'r rhai hynny yn y gynulleidfa o oedran arbennig! Pan oedd rhai ohonom yn blant yn Ysgol Gynradd Pantteg roedd gweld tryciau mawr yn cludo'r milwyr Americanaidd i fyny i'r gwerysll yn Aberhonddu yn gyffrous iawn. Roedd ambell un o'r plant hyn, yn enwedig y bechgyn, yn ddigon dewr i waeddu 'any gum chum', ac yn ddigon lwcus i gael ychydig hefyd! Syndod mawr hefyd oedd gweld milwyr du eu croen am y tro cyntaf. Wrth sgwrsio gyda'r Parchg Bernant Hughes ar y ffôn a rhoi hanes y noson iddo, dywedodd mae'n debyg bod rhai o'r gwragedd yn Ystalyfera yn cynnig tē a brechdan i'r milwyr wrth iddynt fynd drwy'r pentre. Yn ystod y noson bu cyfeirio at dad Islwyn, David George, hanesydd lleol a diacon yn y Capel oedd wedi ysgrifennu tipyn o hanes yr Eglwys hefyd yr actor Dewi ei frawd. Ond mae'n rhaid hefyd sôn am ei frawd Alun, Alun y Cop, fel mae cyfeiriad ato yn ei ddarlith am *Islwyn Williams a'i Gymdeithas* yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Lliw gan yr Athro Derec Llwyd Morgan. Roedd gan Alun dipyn o ddawn hefyd a bu criw bach ohonom ni yn cael llawer o hwyl yn perfformio ambell ddrama fach o'i waith yn y Gymdeithas Ddiwylliannol, a'r seren bob tro oedd y ddiweddar Mrs Kate Rogers. Yn ystod ei weinidogaeth ym Mhantteg bu'r Parchg Eurof Jones yn cynnal dosbarth astudio llenyddol ac Alun yn un gwerthfawr o'r cwmni ac fe gafodd ei ysbrydoli i gael tro ar gyfansoddi ambell englyn. Cof da am deulu hynaws talentog. Mae tipyn o newid ar y pentre erbyn hyn.


Y WERN

COFFAU'R PREIFAT JOHN JAMES LEWIS

Mae'n dymor y Cofio. Dwyn i gof y dewrion gynt a aberthodd eu bywydau yn yr ymgais i waredu'r byd rhag sw'n rhyfel. Un felly oedd John James Lewis, y trydydd hynaf o wyth plentyn Jonathan ac Annie Lewis, Prospect Place, Ystalyfera.

Ei chwaer ieuengaf, Bronwen Lewis, Gorof Road yw'r unig aelod bellach o'r teulu niferus sy'n dal gyda ni.

Tra'n byw yn Ystalyfera, arferai'r teulu fynychu Capel Pant-teg, ond wedi symud i Glan-rhyd daeth Capel y Gurnos yn aelwyd ysbrydol iddynt.



Cafodd John ei addysg yn lleol yn ysgolion y Wern a'r Gurnos ac yna aeth i weithio yng ngwaith tun y Phoenix. Dau ddiddordeb pennaf John, yn y cyfnod hwnnw oedd pysgota ac astudio ar gyfer ymuno â'r Heddlu Metropolitan yn Llundain, thrwy'r hyfforddiant gafodd gan Goleg Bennet, a'r ymdrech glodwiw wnaeth John ei hun wrth gyfuno'i alwedigaeth ddyddiol gydag astudio, llwyddodd yn ei arholiadau er mwyn ymuno â'r Heddlu Metropolitan. Ond ni wireddwyd yr uchelgais oherwydd pan dorodd yr Ail Ryfel Byd ym 1939 gwirfoddolodd ar unwaith ac ymunodd â'r *First Battalion Welch Regiment*.

Yn ystod ei gyfnod yn y fyddin gwasanaethodd yn Cairo, lle bu'n aelod o warchodlu personol y Cadfridog Montgomery. Pan ddaeth ei dymor o wasanaeth i ben yn Cairo, cafodd John ei anfon i Creta (*Crete*). Yno, mewn lle o'r enw Canea ar 27 neu 28 Mai, er mawr dristwch i'w deulu annwyl, i'w ffrindiau ac i'w gatrawd, talodd y pris uchaf oll, wrth iddo golli ei fywyd yn 24 mlwydd oed yn gwasanaethu ei wlad.

Ynghyd ag eraill a ddiroddodd yr un dynged, claddwyd Preifat John James Lewis 3967429 mewn mynwent yn Canea, Ynys Creta, ond mae enw John i'w weld, yn ogystal, yn y *Commonwealth War Graves Cemetery* yn Phaleror, ger Athens. Mae'r fynwent hon ar gyfer milwyr a gollodd eu bywydau yn amddiffyn Groeg, Creta, y Dodecanese ac Iwgoslafia.



Yn ystod ei dymor yn y fyddin cyflwynwyd nifer o fedalau i John gan gynnwys Medal yr Ymgyrchoedd Milwrol, y Fedal Ryfel a Medal Seren Affrica.

Mae enw John James Lewis 3967429 yn perarogli'r awel, yn y gobaith mawr y bydd ei aberth ef, a miloedd ar filoedd tebyg, yn arwain at sefydlu byd yn rhydd o sw'n rhyfel a'r erchyllterau a gysylltir â rhyfel.

RHOI DIOLCH AM FYWYD EIRWYN

Gyda'r tristwch pennaf clywyd y newyddion blin fod Eirwyn wedi ymadael â ni. Wrth feddwl am Eirwyn gellir dweud amdano ei fod wedi byw bywyd llawn iawn a hynny o fewn ei filltir sgwâr ym mharthau Ystalyfera.

Pan yn ieuengach bu'n aelod o dîm rygbi Ystalyfera, gan wasanaethu'r clwb fel Ysgrifennydd a Thrysorydd. Yn ddiweddarach daeth golff yn rhan bwysig o'i fywyd, felly hefyd teithio a chymdeithasu gyda ffrindiau a doddi'r byd yn ei le mewn awr fach ddifyr a diddig.

Bydd ei gydweithwyr yn y Mond yn cofio Eirwyn fel rheolwr teg a dawnus. Dringodd yn uchel fel peirianydd ac yn sgil ei ddoniau teithiodd y byd i gyflawni ei waith, cymaint oedd y galw am ei arbenigedd.

Yn naturiol bydd sawl cylch yn gweld ei eisiau yn fawr iawn ond bydd neb yn gweld ei eisiau'n fwy na'i deulu annwyl. Cydymdeimlwn yn dyner â Caryl, Hywel a Lynne, Alun a Julie, Gareth a Hollie a Roger a Jane yn eu colled a'u hiraeth ar ôl un mor annwyl yn eu golwg, ac yn wir yng ngolwg pawb a gafodd y fraint o'i nabod.

Boed i'r atgofion hyfryd a melys fydd gennym am Eirwyn ein cysuro a'n hysbrydoli yn y dyddiau nesaf wrth i ni weld ei eisiau a hiraethu ar ei ôl.

CYNGERDD CÔR DATHLU CWMTAWE

Cafwyd gwledd o ganu ac o ddatganiadau yng Nghyngerdd Côr Dathlu Cwm Tawe a'i westeiat ar nos Sadwrn, 1 Hydref yn Eglwys San Cynog, Ystradgynlais a gwresog iawn oedd cymeradwyaeth y dyrfa luosog oedd yn bresennol a'r arlwy gerddorol a ddarparwyd mor swynol ar eu cyfer.



Yn ôl y disgwyl, roedd y Côr ar ei orau gyda'i ddatganiadau meistrrolgar o'i repertoire. Roedd yn gwbl amlwg i bawb fod yr holl ymarferion a gynhaliwyd ers i'r Côr ddechreio o America wedi talu ffordd ynghyd ag ymdrechion clodwiw Conway Morgan, Cyfarwyddwr Cerdd dawnus y côr, a'r Cyfeilydd medrus Dr David Lyn Rees.

Erbyn hyn, un o gantorion amlycaf ein cenedl yw Eirian Davies. Mae wedi ei fendithio â llais canu cyfoethog iawn. Yn sgil hynny mae wedi diddanu cynulleidfaoedd hyd a lled Cymru a thu hwnt gyda'i ddawn anghygoel. Swynwyd y gynulleidfa gan ei bersonoliaeth ddiymhongar a'i lais canu soniarus.

Diddorol yw nodi fod Twrw Tawe wedi ffurfio yn 2011, yr un flwyddyn â Chôr Dathlu Cwm Tawe. Mae Twrw Tawe wedi rhoi cyfleoedd i blant y cwm ddatblygu eu doniau cerddorol yn gyhoeddus. Braf oedd gweld aelodau'r côr yn mwynhau eu hunain ac roedd eu lleisiau ifanc, ffres wedi creu argraff ar bawb. Roedd pob un aelod yn gredit i Elfair, Catherine, Chrisley ac Emyr sy'n gyfrifol amdanynt.

Cawsom Ann Denholm ar ei gorau fel telynores ac roedd ei datganiadau o'r traddodiadol a'r clasurol o'r safon uchaf posib.

Yn ei ffordd ddeheuig cyflwynwyd yr artistiaid gan Alan

George, Cadeirydd y Côr. Yn ogystal, diolchodd i bawb am eu presenoldeb a'u cefnogaeth. Gorchwyl arall a gyflawnwyd ganddo, a hynny eto yn gwbl urddasol, oedd cyflwyno rhodd o *grand piano* at ddefnydd yr Eglwys a grwpiau o'r gymuned sy'n defnyddio'r adeilad fel lleoliad i'w gweithgareddau.

Esboniodd taw bwriad gwreiddiol y Côr oedd cwrdd â chostau trwsio Organ y Neuadd Fawr yn Ysgol Gyfun Maesydderwen, er cof am gyn-ddisgyblion yr Ysgol a gollodd eu bywydau yn Rhyfeloedd Byd y ganrif ddiwethaf. Ond yn anffodus nid oes modd gwneud hynny gan fod yr organ tu hwnt i bob adferiad. Yn wyneb hynny, ac fel arwydd o werthfawrogiad y Côr o garedigrwydd Eglwys San Cynog am bob cymorth i gynnal eu cyngherddau yno ac yng ngŵydd y Côr a'u cyfeillion a phawb oedd yno, trosglwyddwyd y grand piano i'r Eglwys a derbyniwyd y rhodd gyda diolch a balchder mawr ar ran yr Eglwys gan Mrs Wendy Williams a Mrs Jan West, wardeiniaid Eglwys San Cynog.

Terfyn godidog i gyngerdd ardderchog fydd yn aros yng nghof pawb oedd yno am amser hir.

TEULU RHIAN YN EI HANRYDEDDU

Er mawr llawenydd i'w theulu mae Flori Rose wedi cyrraedd. Mae Flori Rose yn ferch i Sarah a Rob ac yn naturiol iawn mae'r ddau ohonynt uwchben eu digon, gan iddynt cael eu bendithio'n helaeth iawn wrth i Flori Rose ddod i'r byd ac i'w bywyd. Ac yn sicr iawn mae cwpan mam-gu Pat(Morris) yn llawn hyd yr ymylon am fod ganddi wyres dlos i'w hanwyo. Mae hyn i gyd yn gwneud Mrs Rhian Lewis, Clare Road, unwaith eto yn hen-famgu balch iawn.

Da yw cael gwybod fod Logan, mab Jemma a Leon erbyn hyn yn dod 'mlaen yn iawn ac yn ddedwydd ei fyd ag yntau yn or-or-wyr i Rhian.

Pob bendith dan y nef i Flori Rose ac i Logan ynghyd a'u teuluoedd hyfryd.

RHOI DIOLCH AM WILLIAM DANIEL MORGAN

Blin iawn oedd gennym glywed y newyddion trist fod William (Will Willa) wedi ymadael a ni ar ol cystudd hir a chaled. Brodor ydoedd o Graig y Merched ac roedd yn adnabyddus yn yr ardal fel cymwynaswr, cymeriad a chyfaill i bawb a ddaeth i gysylltiad ag ef. Roedd Will hefyd wedi ei ddonio'n helaeth fel cwmniwr dymunol ac roedd ei sgwrs bob amser yn ddiddorol a'i storïau ynghyd a'i hiwmor yn ddifyr. Yn sicr roedd yn gymeriad aeth yn ddwfn iawn i serchiadau pawb a gafodd y fraint o'i adnabod.

Coffa da amdano a bendith y nef ar ei deulu annwyl.

CWMLLYNFELL

CLEIFION

Dymunwn wellhad buan i Mr Aled Thomas, Heol Harris, Mr Morlais Lewis, Cefn-bryn-brain, a Mrs Val Jones, Cefn-bryn-brain, y tri yn derbyn triniaeth mewn ysbyty. Wedi dychwelyd adre mae Mrs Mari Bennett, Gwernant, Mr Charles Williams, Pen-y-bryn, Mrs Elinor Jones, Heol Harris a Mr Myrddin Morgan, Pen-y-graig. Llwyd wellhad iddynt.

MARWOLAETH

Cofiw'n am Mrs Val Wallbank, Heol Gwilym, gweddw'r diweddar Mr Wallie Wallbank, a fu farw yn ystod y mis.

GWASANAETH DIOLCHGARWCH

Cafwyd gwasanaeth diolchgarwch hyfryd yn Eglwys y Santes Margaret ar brynhawn dydd lau 20 Hydref gyda'r plant o'r ysgol gynradd yn cymryd at yr awenau. Roedd yr eglwys dan ei sang a phawb wedi mwynhau'r llefaru, y canu bywiog a'r eitemau offerynnol - a phopeth yn dynodi pwysigrwydd dweud 'Diolch'.

YR ALLTWN

Y CAPEL

Ar ddydd Sul, 9 Hydref cynhaliwyd cwrdd Diolchgarwch. Cafwyd darlleniadau gan Elin Davies, Sharon Rees, Rhian Hammond-Pugsley a Mari Lanchbury. Offrymwyd y gweddïau gan Andrew a Dafydd Millard. Testun y bregeth oedd "Ymhob dim, diolchwch" gan gofio am y rhai rydym yn ddyledus iddynt. Soniwyd hefyd am y cynllun Llyfrau Llafar Cymru sydd wedi bodoli ers 30 mlynedd ac sy'n paratoli llyfrau sain am ddim i dros 450 o bobl drwy Gymru sydd â nam ar eu golwg. Mae casgliad arbennig wedi'i drefnu ar gyfer y cynllun hwn.

PRIODASAU RHUDEM

Llongyfarchiadau gwresog i ddau bâr sydd wedi dathlu eu priodasau rhuddem yn ddiweddar - Ann a John Jones, Waun Pen-lan sydd â dau o blant, Daniel a Rhia a thri ŵyr Jac, Sam a Max ac un wyres, Meg. Hefyd, Barbara a Roland Lanchbury, Heol-y-Parc, sydd â thri o blant, Ffion, Wiliam a Mari.

CYDYMDEIMLAD

Bu farw Pat Lewis, gynt o Heol Gwyn, yn 96 oed. Cydymdeimlwn â'i phlant, Michael, Peter a Christopher a'i llysbant, John a Mary yn eu galar.

PRIODAS

Llongyfarchiadau mawr i Rhys ac Amira ar eu priodas a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Mae Rhys yn fab i Anne (Sutton) Bryngolau. Roedd y briodas yn achlysur teuluol hapus dros ben a braf gweld cymaint o ffrindiau'r ddau yno. Treuliwyd y mis mêl yn Rhufain, Santorini ac Athen. Maent wedi ymgartrefu erbyn hyn yn Yr Eglwysnewydd, Caerdydd. Pob dymuniad da iddynt.



MERCHED Y WAWR

Ar ôl ymdeol, penderfynodd Rob Evans, Abertawe deithio ar hyd a lled Cymru mewn cartref symudol gyda'i gamera. Ffrwyth ei lafur oedd y sgwrs a gawsom ym mis Medi - 'Crwydro o Fôn i Benfro.' Dangosodd luniau prydfarth iawn ar hyd y daith a rhyfeddwyd ar ysblander tirwedd Cymru. Hyfryd oedd cael cyfarfod cynta'r tymor yn Nhŷ'r Gwrhyd.

PONTARDAWE

TABERNACL

OEDFAON MIS TACHWEDD

- 6 10.30 a.m. Y Parchedig Owen Pugh - Cymundeb
13 11.00 a.m. Eglwys San Pedr - Sul y Cofio
13 2.30 p.m. Y Parchedig Owen Pugh
20 10.30 a.m. Dr Phillip Davies (Saesneg)
27 10.30 a.m. Y Chwaer Lorraine King (Saesneg)

OEDFAON MIS RHAGFYR

- 4 10.30 a.m. Y Parchedig Owen Pugh - Cymundeb
11 3.00 p.m. Y Parchedig Owen Pugh -
Oedfa Dan-y-bryn
18 2.30 p.m. Y Parchedig Owen Pugh - Dathlu'r Nadolig
24 11.30 p.m. Y Parchedig Owen Pugh - Gwynos

DIOLCH

Dymuna teulu ein diweddar annwyl chwaer Gwen Jones ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ystod y cyfnod anodd hwn yn dilyn marwolaeth Gwen ar 10 Gorffennaf. Mae'r teulu hefyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt oddi wrth ffrindiau a chymdogion yn ystod tostrwydd Gwen. Diolchant hefyd i'r Parchedig Owen Pugh a'r Parchedig Michael Hodgson am eu geiriau tyner a theimladwy yn ystod y gwasanaethau. Codwyd £2,000 tuag at elusen Tŷ Olwen er cof am Gwen. Gwelir ei heisiau yn fawr iawn gan y teulu a llu o ffrindiau.

TE PARTI

Ar ddydd Mawrth 11 Hydref cynhaliwyd te parti gan aelodau ein Chwaeroliaeth Ruth a Naomi yn y festri. Yn eu plith oedd ein haelod Beti Williams a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Roedd yn bleser mawr i bawb gael y cyfle i groesawu Beti yn ôl unwaith eto ac roedd Beti ei hun yn falch i gael ymuno eto gyda'r chwiorydd. Trosglwyddyd tusw o flodau a theisien ben-blwydd i Beti gan Gillian Williams a Margaret Davies ar ran y gymdeithas. Dyma ddau lun o bawb yn mwynhau.



CWRDD DIOLCHGARWCH

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol ar Sul 16 Hydref dan arweiniad ein gweinidog, y Parchedig Owen Watcyn Pugh. Roedd y capel wedi ei adduro'n brydferth iawn gan ein chwiorydd a chafodd dau ddsbarth o Ysgol Gymraeg

Pontardawe gyfle i weld y capel yn ei harddwch yn ystod yr wythnos ganlynol. Dyma lun o'r cyntedd yn dangos cynnyrch traddodiadol Diolchgarwch.

SOAR

GWAITH ATGYWEIRIO

Mae'r gwaith ar do'r capel yn mynd rhagddo - gobeithio y bydd wedi gorffen yn fuan nawr a bydd modd tynnu'r sgaffaldau o'r diwedd.

CYFARFOD MERCHED YR HENADURIAETH

Bu rhai ohonom yng nghyfarfod merched yr Henaduriaeth yng nghapel y Gopa, Pontarddulais. Mr Arfon Jones oedd yn annerch. Fe fu'n gyfrifol am ysgrifennu cyfieithiad llafar o'r Beibl cyfan sef Beibl.net - i'r cyfrifiadur gyntaf ac wedyn ar ffurf llyfr. Ef yw'r diweddaraf o gyfieithwyr, fel yr Esgob William Morgan a William Salesbury, fu'n gyfrifol am gyflwyno'r Beibl i ni mewn iaith yr ydym i gyd yn deall. Diolchwyd iddo yn gynnes iawn ac i chwiorydd y Gopa am eu croeso arferol.

TREFNU SASIWN

Teithiodd swyddogion Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De o Aberystwyth i gyfarfod â ni i ddechrau trefnu ein cyfarfod blynyddol nesaf a gynhelir yn Soar fis Mai nesaf, dan nawdd a gyda chydweithrediad eglwys Presbyteriaid Tawe Nedd.

DIOLCHGARWCH

Addurnwyd y capel gan y chwiorydd ar gyfer y cyfarfod Diolchgarwch a daeth y plant â rhoddion o fwyd i Fanc Bwyd Pantri. Yn ogystal â chasgliad 'Offrwm Diolch' blynyddol cafwyd rhoddion ar gyfer elusen. Ein cennad oedd Mr Eifion Walters a bu Lowri, Anest, Dewi, Efa, Erin, Angharad ac Alaw yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Bu Tom yn yr ysbty am ysbaid ac felly da iawn oedd ei weld yn y gwasanaeth.



Plant Ysgol Sul Soar gyda'u rhoddion ar gyfer banc bwyd Pantri.

RHYDYFRO

SARON - TACHWEDD

- 20 Y Brawd Gareth Hopkin
27 Y Parchedig Carl Williams

MARWOLAETH

Blin gennym gofnodi marwolaeth David Price, mab i'r diweddar Gordon a May Price. Ar ôl priodi bu'n byw yn Ystalyfera cyn symyd yn ôl i Bontardawe.

Gobeithio na chawsoch ormod o anhawster wrth i rannau'r twrbeini gwyntdd ddod drwy'r pentre'.

'Nawr mae'r hydref wedi cyrraedd, mae'n esgus da i adael peth o'r blodau sy' â hadau i'r adar, a chornel bach o frigau i'r draenog.

CAPEL Y BARAN

Diolch i'r cyfaill Jeff Reed am ei arweiniad ar Sul cyntaf Hydref. Pregethodd gydag arddeliad ar eiriau'r Apostol Paul yn y

bymthegfed bennod o'i Lythyr Cyntaf at y Corinthiaid: "Yn ddiwethaf oll, fe ymddangosodd i minnau hefyd". Clywais Farnwr yn dweud rywbryd fod y dystiolaeth mewn achos yn wan. Well! Os am dystiolaeth gadarn o'r atgyfodiad Dyma'r bennod i'w darllen. Fe fyddai unrhyw gwmsler yn falch o'r dystiolaeth hon mewn achos llys - *witness statement par excellence*. Mewn erthygl gan yr eglwys Bresbyteriaid roedd yna stori am ddyn yn cerdded yn hamddenol o gwmpas Oriol Gelf pan ddaeth ar draws crwt bach yn syllu ar ddarlun o Grist ar y Groes. Gofynnodd i'r crwt, beth yw'r llun yna? "Llun o Grist yn marw ar y Groes dros ein pechodau ni", atebodd y crwt. Aeth y dyn yn ei flaen ac mewn ychydig teimlodd rywun yn tynnu wrth ei lawes. "Anghofies i ddweud" meddai'r crwt, "mae e'n fyw yn awr". Mor wir y dywedodd y Parchedig Owain Llyr: "nid y bedd gwag yw'r wyrth ond y Crist byw". Diolch i Jeff am bregeth sydd wedi ein hatgoffa fod pob Sul yn ddathliad o'r Crist byw.

Gorfoleddwn llawenhawn:
gwag yw'r bedd a'r nef yn llawn;
rhoddwn ynot ti ein ffydd,
arwr mawr y trydydd dydd.

(D Glyn Lewis)

Daeth cwmwl o dristwch drosom fel eglwys oherwydd bu un o'n cyfeillion ffyddlonaf farw, sef y diweddar Wil Gittins. Fe'i magwyd yn fferm Cwm-bryn ar gyrion mynydd Carn Llechart. Er iddo symud ar ôl priodi i Gwm Tawe, daliodd i fod yn 'fab y mynydd'. Fe fyddwn fel cynulleidfa yn ei golli yn fawr, colli ei wên siriol a'i gyfarchiad cynnes. Braint oedd adnabod y person annwyl ac addfwyn hwn a'i gael yn gyfaill oes. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i unig ferch Alison a'i phriod Kevin a'r wyrion Aled ac Arwel, a hefyd a'i neiaint a'i nithoedd a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar. Boed i'r Duw y bu Wil yn ei addoli mor ffyddlon ym Mhant-y-crwys a'r Baran eu cysuro. Diolch fod ein diacon hynaf, Islwyn Jones, yn gwella ar ôl cyfnod yn Ysbyty Treforys, hefyd ei briod Jean ar ôl llawdriniaeth. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt. Ar Sul cyntaf Rhagfyr, oedfa i ddathlu'r Nadolig fydd gyda ni. Fe fydd oedfa mis Ionawr o dan ofal y brawd Eifion Walters, mis Chwefror, y Brawd Walford Morris, a mis Mawrth y Parchedig Owen Pugh. Bydd pob oedfa Sul cynta'r mis am 2.30 p.m. Croeso cynnes iawn i bob cyfarfod.

FELINDRE

OEDFAON NEBO 10.30 A.M. AC YSGOL SUL AM 2.30 P.M.

TACHWEDD

20 Mr D.C.Davies

27 Y Parchedig Owen W. Pugh: Oedfa Gymun

OEDFAON AM 10.30 A.M. AC YSGOL SUL AM 2.30 P.M.

RHAGFYR

4 Y Parchedig Meirion Evans

11 Y Parchedig Owen W. Pugh

18 Y Parchedig Owen W. Pugh: Oedfa Gymun (10.30 a.m.)

18 Gwasanaeth Carolau (7.00 p.m.)

25 Y Parchedig Owen W. Pugh - Gwasanaeth Bore Nadolig (9.00 a.m.)

CYFARFODYDD HANNER BLYNYDDOL

Yn ein cyfarfodydd eleni cafwyd penwythnos arbennig yng nghwmni y Parchedig Eirian Wyn Lewis, Mynachlog Ddu a'r Parchedig Owen W. Pugh, ein Gweinidog, nos Sadwrn yr 8fed a bore Sul y 9fed. Ac yn y prynhawn trefnwyd y gwasanaeth gan aelodau yr Ysgol Sul, sef Phyllis Bell, Yvonne Williams, Janis, Catrin a Gareth Stone, a Bethan Davies.

Cafwyd oedfaon bendithiol iawn, a maint y gynulleidfa'n foddhaol, ond gellid bod wedi gwneud mwy o ymdrech - y tro

nesaf efallai.

YSBYTY

Dal yn ysbyty Gorseinon mae Mrs Mary Harris, Llys-yr-awel ond mae

Sal Feakes wedi mynd o Gorseinon i gartref preswyl yr Hollies, Pontarddulais. Dal yn ysbyty Singleton mae un o'n haeloday hŷn, sef Victor Japp ond yn gobeithia ddod adref yn ystod yr wythnos.

Bu Gwynfor Williams yn ysbyty Treforys am ychydig amser, ond fe wellodd yn ddigon da i gael cinio dathlu pen-blwydd y dinasyddion hŷn. Yna teithiodd i Lundain am gyfnod o wyliau gyda'i ferched.

Cafodd Frank Byng ymweliad annisgwyl ag ysbyty Treforys, a chafodd driniaeth lawfeddygol. Pob dymuniad da i bawb gan ddyuno gwellhad llwyr a buan.

CYDYMDEIMLO

Carwn gydymdeimlo fel eglwys gydag Eiluned Thomas (née Bell) Aberystwyth, un o aelodau Nebo, gan iddi golli ei chwaer-yng-nghyfraith Eirlys Thomas o Bontlliw. Bydded i'n gweddïau fod gyda'r meibion sef Ian, Peter, Martin a'u teuluoedd.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i'r Parchedig Owen a Christine Pugh ar enedigaeth eu pumed ŵyr sef Noa Gwyn Owen, a anwyd ar 28 Medi 2016. Gwelir yn y llun ei reni hapus, sef Hywel (mab Owen a Christine) a Catrin Haf James (merch Enfys a Yan James o Ben-y-cae). Hefyd yn y llun gwelir Madi a Millie sy'n hapus dros ben gyda Noa eu brawd newydd. Teulu hapus a dedwydd.



DIOLCHGARWCH

Gwelir yn y llun ddisgyblion o Ysgol Gymraeg Felindre yn dathlu eu gwasanaeth diolchgarwch ynghyd â'u Prifathrawes Sara David a staff yr ysgol. Hefyd yn y llun gwelir Y Parchedig Vincent Watkins, Y Parchedig Owen W. Pugh a Mrs Phyllis Bell.



Diolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd tuag at y gwasanaeth. Mae'r llun yn dangos y bwrdd cynnyrch.

DINASYDDION HÛN

Dechreuodd cymdeithas y dinasyddion hŷn nôl ar ôl cael seibiant dros fis Awst gyda nodau hapus y Parchedig Clive Williams LRAM., LLCM. yn diddanu. Cafwyd amser difyr yn ei gwmi gyda'i wybodaeth helaeth am gerddoriaeth.

Ar y 27 Medi, cafwyd cinio blasus a digon ohono yn 'Y Bridge', Llangennech i ddathlu pen-blwydd y gymdeithas. Ymwelwyr cyson â'r gymdeithas yw Thea, Paul a Chris sy'n gantorion galluog a storiwyr digri o fri hefyd, a chafwyd digon o chwerthin iach. Chwaer o India oedd Gita Aldridge a ddaeth i fyw i Gymru yn nawmlwydd oed. Daeth ei phriod o Ferthyr ac mae nawr yn athro mathemateg yn ysgol St. Michael, Llanelli, lle mae Gita hefyd yn athrawes ran-amser. Daeth â llawer o'i gwisgoedd i ddangos i'r aelodau. Roeddent yn hyfryd iawn.

NEUADD Y PENTREF

Cynhaliwyd noson hwylus o Goginio a Blasu yn y neuadd ar nos Fawrth 11 Hydref o dan lywyddiaeth Mrs Anne Evans.

Yn absenoldeb anorod yr arddangoswr gwreiddiol Dermot Slade o Dawn Pac, daeth dau o'i gydweithwyr sef Ryan Jones a Siôn a fu'n cyflwyno syniadau o wahanol lenwadau ar gyfer pwdinau Swydd Efrog ('Yorkshire') - rhai sawrus a rhai melys. Roedd pawb yno wedi mwynhau'r profiad gwych o'u blasu !

Mrs Heather Davies, Garn-swlit, ac ysgrifenyddes, Ysgol Gymraeg Felindre oedd y llywydd gwadd, a diolchodd yn gynnes i'r ddau arddangoswr ffraeth eu cyflwyniad. Diolchodd hefyd i Bwyllgor y Neuadd am drefnu'r noson fel rhan o weithgareddau'r neuadd ac i roi hwb sylweddol i'r gronfa.

TREBANNWS

CYDYMDEIMLAD

Trist oedd clywed am farwolaeth Nan Lewis yn ddiweddar; annwyl wraig i'r diweddar Jac a mam Gareth, Barbara ac Adrian. Roedd y nifer yn ei hangladd yn deyrnged i'w phoblogrwydd a'r parch tuag ati yn y gymuned. Bu Nan yn byw yn Nhrebannws ar hyd ei hoes ond am y ddwy flynedd ddiwethaf bu o dan ofal Cartre' Hengoed yn Sgiwen. Cydymdeimlwn â'r plant, eu teuluoedd a'r teulu estynedig yn eu galar.

CYMDEITHAS YR HENOED

Bu Cymdeithas Henoed Trebannws ar daith yn ddiweddar i ymweld â'r eglwys a addurnwyd gan y carcharorion Eidalaid yn Henllan yn ystod yr Ail Ryfel Byd. 'Roedd yn rhyfedd i weld cymaint o allu oedd gan y dynion i greu amrediad o arteffactau a darluniau, o feddwl cyn lleied oedd yr adnoddau oedd ganddynt ar y pryd. Cawsom ein tywys o gwmpas gan Jon Meirion Jones a Jim Thomson, y ddau yn wybodus iawn am hanes y gwersyll ac yn awchus i drosglwyddo'r hanes diddorol i ni'r ymwelwyr. Mae'n braf gweld bod cystal brawdgarwch wedi tyfu rhwng y ddwy wlad er erchyllt y rhyfel. Yn y llun gwelir Mr Thomson a Mr Jones yn dal y ddwy faner, sef y Ddraig Goch a Bandiera d'Italia gyda balchder. Gorffennwyd y daith yn nhref Caerfyrddin a diolch yn fawr i Marilyn ac Eleanor am drefnu cystal ymweliad mor drwyadl.



BORE COFFI MACMILLAN Y CLWB RYGBI

Cafwyd bore coffi llwyddiannus dros ben yng nghlwb rygbi'r pentre' ym mis Medi a chodwyd dros £800 i elusen MacMillan. Roedd y digwyddiad wedi ei drefnu gan famau'r tîm iau ac os ydy sgiliau rygbi'r plant cystal â choginio eu mamau mae llwyddiant y clwb yn saff i'r dyfodol. Diolch yn fawr i bawb am eu gwaith called.

CRAIG CEFN PARC

PANT-Y-CRWYS

CYDYMDEIMLO

Yn Ysbyty Treforys ar 15 Medi bu farw **Mary Ellen Jones** (Phillips gynt), Lôn Heddwch yn 85 mlwydd oed. Bu'n aelod ffyddlon dros y blynyddoedd. Yn enedigol o Glydach, roedd yn ferch i'r diweddar Gwyn a Phyllis Phillips, yn wraig i'r diweddar Norman ac yn fam gariadus i Heulwen a Mari (efeilliaid). Roedd y tair ohonynt gyda'i gilydd bob amser ac yn gefnogol i'w gilydd ymhob ffordd. Roedd yn hoff iawn o deithio, ymhell ac agos. Dathlwyd pen-blwydd Mary yn 80 oed yn Dubai. Fel aelodau rydym yn gwerthfawrogi'r gofal roddodd y merched i'w mam, yn enwedig yn y blynyddoedd diwethaf. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol ym Mhant-y-crwys o dan ofal Mr Gareth Hopkin gyda Eiri Mair Griffiths wrth yr organ. Fe'i claddwyd yn y fynwent gerllaw. Cydymdeimlwn â'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth.

Gyda thristwch clywsom am farwolaeth **William Gittins**, aelod ffyddlon arall ym Mhant-y-crwys. Yn enedigol o fferm Cwm-bryn, Rhydyfro ymgartrefodd yn Heol y Graig, Godre'r-graig ers blynyddoedd. Bu farw yn Ysbyty Treforys ar 24 Medi yn 88 mlwydd oed. Roedd yn ŵr i'r ddiweddar Jean, yn dad cariadus i Alison, tad yng nghyfraith i Kevin ac yn dadcu tyner i Aled ac Arwel. Yn ewythr hoffus i'w holl neiaint a'i nithoedd, fe welir eisiau Will yn fawr iawn gan ei holl deulu a'i ffrindiau. Cynhaliwyd yr angladd ym Mhant-y-crwys a da oedd gweld cymaint yno i dalu'r deyrnged olaf i un oedd mor uchel ei barch yn y gymuned. Gwasanaethwyd gan Mr Eifion Walters (y Baran) gyda Mr Gareth Hopkin yn offrymu gweddi. Claddwyd yn y fynwent gerllaw. Cydymdeimlwn â'r teulu oll. Coffa da amdano a hedd i'w lwch.

GWELLHAD BUAN

Dymunwn adferiad iechyd i bob aelod sy'n methu mynychu oedfaon oherwydd tostrwydd ac yn gaeth i'w cartrefi ar hyn o bryd.

CYNGERDD NADOLIG

Bydd Ysgol Gynradd y pentref yn cynnal dau gyngerdd ar 7 ac 8 Rhagfyr ym Mhant-y-crwys.



CLYDACH

DATBLYGIADAU NEWYDD TŶ CROESO

Rydym yn gobeithio y bydd Tŷ Croeso yn cael ei gofrestru fel yr enghraifft gyntaf yng Nghymru o'r 'Mannau Croesawu' sy'n datblygu ar draws gwledydd Prydain. Mae 'Mannau Croesawu', mudiad sy'n bennaf ar lein, yn creu rhwydwaith o lefydd gyda sesiynau galw i mewn cyson. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y casgliadau diolchgarwch ar gyfer y Banc Bwyd. Mae'r silffoedd yn llawn ar hyn o bryd diolch i nifer o eglwysi. Weithiau dim ond un neu ddau o bobl sy'n dod i'r Banc Bwyd, ond (yn anffodus!) yr wythnos hon rhoddwyd 150 kg o fwyd i 12 o oedolion a 14 o blant. Datblygiad newydd arall fydd 'Tea and Hymns' yng Nghapel y Nant ar 30 Tachwedd am 2.15 p.m. – sesiwn gyda thema Nadoligaidd i'r henoed, wedi ei drefnu gan Tŷ Croeso a'r Guild Wesleiaidd. Os oes ffrind, perthynas, neu gymydog 'da chi a fyddai'n gwerthfawrogi'r digwyddiad hwn, rhowch y manylion iddynt, os gwelwch yn dda. Diolch i bawb sydd yn ein cefnogi mewn unrhyw ffordd.

MERCHED Y WAWR

O dan lywyddiaeth Brenda Evans fe ddechreuodd Cangen Clydach o Ferched y Wawr ei thymor newydd ar ddechrau blwyddyn y dathlu - Dathlu'r Aur: hanner canfed pen-blwydd y Mudiad. Yn ystod y flwyddyn bydd prosiect y dathlu yn mynd ati i gasglu lluniau a chofnodi atgofion aelodau a changhennau. Bydd yn gyfle i roi ar gof a chadw rhai o'r digwyddiadau cynnar. Penodwyd dwy i wneud y gwaith: bydd Branwen Davies, sy'n gyfrifol am y de yn gweithio yn yr ardal. Eisoes mae dyddiadau wedi eu pennu ar gyfer sganio a chofnodi lluniau, rhaglenni ag ati. Yn Rhanbarth Gorllewin Morgannwg bydd sesiwn yn Nhŷ'r Gwrhyd yn 2017. Fel rhan o'r dathlu hefyd cynhelir cystadleuaeth o dan gefnogaeth y Lolfa i baratoi Llyfr Lloffion o weithgareddau'r Canghennau yn ystod y flwyddyn Medi 2016 – 2017. Croesewir aelodau newydd ac mae'n gyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg. Yn ddiweddar gwelir merched yn croesi ffiniau ac yn teithio i fwy nag un gangen sy'n fwy hwylus iddyn nhw.



Yn y llun gwelir y swyddogion: Brenda Evans y Llywydd, Jean Bowen, Cyn-lywydd Clydach a Llywydd Rhanbarth Gorllewin Morgannwg, yr Ysgrifennydd, Annette Hughes, y Trysoryddion Heulwen Morgan ac Einir Watts Rees a'r Cyn-drysoryddion June Griffitha ac Elaine Waghorn, a Mair Williams ein swyddog cymdeithasol i helpu gyda'r trefniadau.

Cynhelir y Cwis Blynyddol yng nglwb Golff Treforys ar 11 Tachwedd ac ar Sadwrn 19 Tachwedd rhwng 10 a 4 o'r gloch yn yr Institiwt yng Ngorseinon cynhelir gweithdy i baratoi clustogau siap calon ar gyfer merched sydd wedi dioddef triniaeth canser y fron. Yn ystod y dydd bwriedir cwblhau hanner cant.

YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus gan Guild yr Eglwys Fethodistaidd er budd Cronfa MacMillan ar ddiwedd mis Medi.



Dyma lun o rai o'r gweithwyr diwyd a fu'n gyfrifol am godi dros £600.

Ar 30 Tachwedd bydd y Guild yn cydweithio gyda Thŷ Croeso i gynnal sesiwn Nadoligaidd o de a chân (*Tea and Hymns*) yng Nghapel y Nant am 2.15.

CAPEL Y NANT

DIOLCHGARWCH

O dan ofal ein harweinydd medrus Robat Powell cynhaliwyd ein cwrdd diolchgarwch blynyddol gyda help yr aelodau o bob oed. Cesglir bwyd at y Banc Bwyd yn rheolaidd yng Nghapel y Nant ond roedd y coffrau'n llawnach ar y bore hwn. Mae'n arwydd o haelioni'r aelodau a hefyd eu consym am gyd-ddyn yn ein cymdeithas. Yn ogystal â chyfrannu mae nifer yn helpu'n gyson yn Nhŷ Croeso.

Cynhaliwyd cyfarfod diolch byr ganol yr wythnos hefyd yn y Neuadd, a bu'n fendith i nifer. Rydyn yn ymwybodol iawn bod unigrwydd yn llethu ein cymdeithas ac felly trefnir 'Drws Agored' o hyn allan yn gyson, a fydd yn fan cyfarfod am sgwrs a dishgled. Bydd y cyntaf ar 10 Tachwedd am 2.00 fydd y cyntaf. Croeso i unrhyw un.

Y Grŵp Eglwys a Chymdeithas sydd wrthi yn paratoi gweithgareddau i gymdeithasu ac yn sgil hynny codi arian at elusennau gwahanol yn ystod y flwyddyn.



Yn y llun gwelir y Parch Pam Cram ac Eurig Davies, Trysorydd Tŷ Croeso yn derbyn rhodd o £1,500 tuag at y gwaith. Cyflwynwyd hefyd yr un swm i fudiad Peace Direct, mudiad sy'n hybu heddwch.

Eisoes mae'r gwaith wedi dechrau ar gyfer codi at ddwy elusen arall sef Alzheimer's a Chymdeithas Feddygol Bhopal.

Cafwyd noson hyfryd iawn yng nghwmni'r ddau gôr a mawr yw ein diolch am iddynt wneud hynny yn ddi-dâl er budd yr elusennau teilwng. Penelope George oedd yr unawdydd ifanc fu'n canu gyda'r merched ac rwy'n siwr y cawn glywed rhagor am ei dawn hi i'r



Penelope George

dyfodol. Diolch i Janice Walters, un o'n horganyddion sy'n aelod o'r Côr Merched am ei hysgogiad i drefnu'r cyngerdd. Rydyn i gyd yn gwybod am effaith Alzheimer's ar unigolion a theluoedd a bydd unrhyw gyfraniad a wneir yn hybu gwaith y Gymdeithas. Yn 1984 digwyddodd trychineb Bhopal yn yr India gyda nwyon difflig carbide yn lladd miloedd o bobl. Ddeg mlynedd ar hugain wedi'r gyflafan mae pobl yn dal i ddiodesf a bydd ein cyfraniad ni megis diferyn yn y môr i leddfuo poen a dioddefaint teuluoedd sy'n dal i ddiodesf effeithiadau'r drychineb.



Y arweinydd a chyfeillydd Côr Dathlu Cwm Tawe, sef Conway Morgan a David Rees, ac arweinydd a chyfeillydd Côr Merched Treforys, sef Anthony Williams a Huw Smitham.

CHWAEROLIAETH

Ymunodd Bethan Richards, o Trinit y Sgeti â ni yn dilyn ei hymweliad â'r India. Clywsom am ei thaith gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'l phrofiad wrth ddychwelyd i fannau oedd yn gyfarwydd â hi a'i theulu. Ymhell o Gymru ac yn agos adre; yn aml iawn bydd pobl yn teithio i bellterau byd heb wybod am yr hyn sydd o fewn tafliad carreg i'w cartrefi, felly roedd yn braf cael cwmni Eugena Hopkin o Graig-cefn-parc a chlywed stori Castell Craig y Nos.



OEDFAON

Yn ystod mis Hydref gwasanaethwyd gan ein harweinydd Robot, y Parchedig Pam Cram a'r Parchedig Ddr. Noel Davies. Roeddem wedi edrych ymlaen at wasanaeth y Parchedig Derwyn Morris Jones ond oherwydd colli Eileen ei wraig ar ôl salwch hir ni fedrodd gadw ei gyhoeddiad. Roedd hi yn wraig dawel ac addfwyn, yn fam i Bethan ac Alun ac yn nain annwyl. Y chwiorydd fu'n gyfrifol am y gwasanaeth y bore hwnnw yn ei le. Cyflwynwyd y gwasanaeth a baraothyd yn wreiddiol ar gyfer Oedfa Byd-eang y Chwiorydd ar y thema 'Derbyniwch blant, Derbyniwch fi' a luniwyd gan ferched Cwba. Arweiniwyd gan Brenda Evans a chymerwyd rhan gan Doreen Hopkins, Mair

Evans, Viv John, Meriel Leyden, Elaine Waghorn, Bet Jones, Josephine Jones, Ann Jones, Janice Walters, Maureen Hopkins, Mary Davies, Llinos Owen, Eleri Eurig ac Annette Hughes. Roedd yn lliwgar iawn a'r pwyslais ar y syniad o'r plentyn yn arwain.

HWYL A JOIO

Cynhelir sesiwn arall o Hwyl a Joio ar gyfer plant oed cynradd yn Neuadd y Nant ar nos Iau 3 Tachwedd am 5.30.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Elen Gwenllian, merch Charlotte a Hywel Davies ar achlysur ei phriodas gyda Adam George. Ar hyn o bryd mae Elen yn gweithio ym Mhen-y-bont ac Adam yn gweithio i gwmni Admiral. Cyrhaeddodd Hywel ac Elen mewn steil mewn coets wen a cheffylau gwyn bob cam o Dreforys. Gweinyddwyd y briodas gan ein harweinydd Robot Powell gyda chymorth y Parchedig Dewi Hughes a Janice Walters yn cyfeilio. Roedd y wledd briodsol yng ngwesty Oldwalls yn Llanrhidian. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref ym Mhenlle'r gaer.



CROESO NÔL O FADAGASCAR.

Braf oedd cael croesawu ein harweinydd nôl o Fadagascar ar ôl pythefnos gyda FJKM, yr eglwys unedig yno. Bu'n rhannu gyda ni mewn dau gwrdd cyfoes am yr hyn a welodd yno. Ar ôl bron i ddwy ganrif maen nhw'n dal i ddiolch am waith y cenhadon cynnar Thomas Jones, David Bevan a David Griffiths. Rwy'n siwr y cawn glywed mwy am am y daith gan Robot.

PWYLLGOR CLYDACH YMCHWIL CANCR.

Yn ddiweddar cafodd aelodau o Bwyllgor Apêl Clydach gyfle i fynd i Brifysgol Abertawe i weld a chlywed am y gwaith ymchwil a wneir yno. Cancr y Prostad oedd testun y gweld a'r dysgu. Mae'n braf bod pobl sydd wrthi yn codi arian at elusen yn cael cyfle i weld a chlywed am y gwaith ymchwil a wneir yn lleol.

EGLWYS Y SANTES FAIR

Mae'r sgaffaldau wedi dechrau cael eu gosod ar gyfer adnewyddu'r to a fydd yn costio miloedd o bunnoedd. Cynhelir Ffair Nadolig yr eglwys am 2 o'r gloch ar 24 Tachwedd. Dymuniadau gorau a gwellhad buan i Mike Diment o Barc Kingrosia a Gareth Lewis o Gellifedw sydd wedi bod yn yr ysbty yn ddiweddar.

CALENDR Y LLAIS 2017

Golygfeydd hyfryd o Gwm Tawe

Anrheg delfrydol

£4.50

Ar gael gan:

John Evans 01792 842853

YSGOLION

YSGOL GYNRADD GYMRAEG FELINDRE

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed yr ysgol am gynrychioli YGG Felindre mewn trnament pêl-droed a drefnwyd gan yr Urdd ganol Hydref. Roedd ymdrech y bechgyn yn amlwg gyda phob un ohonynt yn rhoi cant y cant ymhob gêm. Diolch i Mr Cooper, tad Morgan a Seren, am yr anogaeth a'r gefnogaeth!



Daeth swyddog o elusen yr RSPB i'r ysgol yn ddiweddar i roi cyflwyniad i'r plant am waith y Gymdeithas yn ogystal â chyngor ynghylch gwarchod adar yn ein gerddi ac ar dir yr ysgol. Diolch iddyn nhw am ddod i addysgu ac ysbrydoli'r plant. Anifeiliaid oedd y testun dan sylw pan ddaeth aelod o staff cwmni Zoolab i'r ysgol rai dyddiau ar ôl hynny. Y tro hwn cafodd y plant gyfle i gwrrd â nifer o anifeiliaid egsotig megis pryfed, ymlusgiaid a mamaliaid a rhaid dweud bod y disgyblion lawer yn fwy awyddus i gyffwrdd â'r neidr a'r tarantwla na'r staff!

Mae disgyblion YGG Felindre wedi bod yn hynod brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Felindre ers nifer o wythnosau gan ddysgu caneuon a darnau llefaru, ysgrifennu rhyddiaith a barddoniaeth a chyflwyno gwaith celf ar gyfer y gwahanol gystadlaethau. Cynhelir Eisteddfod Felindre bob blwyddyn ar y dydd Gwener olaf cyn hanner tymor. Mae'r plant yn cystadlu'n frwd ac mae'r achlysur bob amser yn benllanw hanner tymor cyntaf y flwyddyn academaidd i ni yn Felindre.



Mae YGG Felindre yn un o dair ysgol Gymraeg yn y sir i gymryd rhan mewn prosiect neilltuol, arloesol a'i nod yw cynyddu ymwybyddiaeth am hanes Y Wladfa a dysgu Sbaeneg drwy gerddoriaeth. Enw'r prosiect yw Cerddiaith ac ar gyfer y sesiwn gyntaf daeth Dr Mererid Hopwood, arbenigwraig iaith, i'r ysgol gyda dau gerddor o gerddorfa symffoni'r BBC. Cafodd y disgyblion fore arbennig yng nghwmni'r ymwelwyr diddorol hyn gan ddysgu nifer o eiriau a phennill o gân i gyfeiliant y ffidil a'r feiola. Niños bien hecho!

YSGOL GYNRADD GYMRAEG TREBANNWS

Cawson ni brynhawn goffi i godi arian i McMillan. Roedd y prynhawn er cof am athrawes Uned Arbennig yr Ysgol, Mrs Sarah Davies. Codwyd dros £240.

Aeth tri o fechgyn (isod) Blwyddyn 6 i fyny i wersyll Glan Llyn am benwythnos, i fod yn rhan o weithgareddau tîm rygbi Siarter Iaith Castell Nedd a Phort Talbot.



Bu plant Blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Ystalyfera am ddiwrnod menter.

YSGOL GYNRADD GYMRAEG CWMLLYNFELL

BABI NEWYDD

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Cathryn Owen, athrawes Meithrin/Derbyn, a'i gŵr Mr Emllyn Owen ar enedigaeth Jac Owen.

STAFF NEWYDD

Croeso cynnes i Mr Rhodri Noakes, athro Meithrin/Derbyn, fel aelod newydd o staff ar ddechrau Tymor yr Hydref. Bydd Mr Noakes gyda ni nes bod Mrs Owen yn dychwelyd o'i chyfnod mamolaeth. Croeso cynnes hefyd i'n cynorthwywyr awr ginio newydd, sef Miss Amanda Kendrick, Miss Michelle Bennett a Miss Phillipa Jones.

Rydym yn gobeithio y bydd ein staff newydd yn hapus iawn gyda ni.

DATHLU LLWYDDIANT MEWN CHWARAEON

Llongyfarchiadau i Erin Hopkins, Carys Howells a Llian Llewelyn am gael eu dewis i gynrychioli Ysgolion Cymraeg Clwstwr Ystalyfera mewn pêl-rwyd yng Ngogledd Cymru.

DATHLU DIWRNOD ROALD DAHL

Cafwyd hwyl a sbri gan bawb ar Ddiwrnod Roald Dahl ym mis Medi. Bu llwyth o wahanol weithgareddau – gwisgo lan fel ein hoff gymeriadau, gwneud losin a siocledi, ysgrifennu swynion a llawer mwy! At hynny, aeth disgyblion yr Adran Iau i Fae Caerdydd ym mis Medi i gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddathlu canmlwyddiant geni Roald Dahl. Aethant ar daith trwy lyfrau Roald Dahl ac fe gawsant y cyfle i fod yn wyddonwyr go iawn, wrth greu moddion newydd yn gysylltiedig â'r stori "George's Marvellous Medicine". Cafwyd amser da gan bawb ar daith fythgofiadwy trwy fywyd Roald Dahl.



TWRNAMENT PÊL-DROED

Aeth dau dîm pêl-droed o'r Adran Iau i Ganolfan Hamdden Pontardawe i gymryd rhan mewn twrnament a drefnwyd gan y Clwb Rotari rhwng ysgolion cynradd Cwm Tawe. Cafwyd diwrnod o gystadlu brwdfrydig a llwyddiannus. Llongyfarchiadau i bob disgybl a diolch o galon i'r Clwb Rotari am drefnu'r twrnament.

PROMS OFFERYNNOL

Llongyfarchiadau mawr i Sioned Bevan (Blwyddyn 4) am gymryd rhan yn y Proms Cerddorol yn Ysgol Gyfun Ystalyfera ym mis Hydref. Bu'n brofiad i'w gofio iddi. Diolch yn fawr iawn hefyd i Ysgol Gyfun Ystalyfera am drefnu'r proms unwaith eto, er, yn anffodus, methodd Blwyddyn 5 a 6 fynychu gan iddynt fynd ar daith i Amgueddfa Ail Ryfel Byd yn Abertawe ar yr un diwrnod.

CYNHAEAF

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Cynhaef ar gyfer teuluoedd a ffrindiau'r ysgol yn Eglwys Santes Marged unwaith eto y flwyddyn yma. Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, yn ogystal â swyddogion yr eglwys am eu cydweithrediad. Yn ystod y gwasanaeth codwyd arian tuag at yr eglwys a chasglwyd bwyd ar gyfer y banc bwyd yn Ystradgynlais.

YSGOL GYFUN YSTALYFERA

LLWYDDIANT CWIS CEMEG

Llongyfarchiadau i Daisy, Iestyn, Henry ac Alex ar guro Ysgol Esgob Vaughan yng Nghystaddeuaeth Frenhinol Cemeg. Ymlaen i'r rownd nesaf!



DAWN ARBENNIG OWAIN

Llongyfarchiadau i Owain Sparron Blwyddyn 12 am arddangos ei waith yn Oriel Mission yn Abertawe. Dewiswyd ei waith hefyd i farchnata'r arddangosfa!



ANIFEILIAID!

Cafwyd ymweliad gwych gan Sw-Lab i wersi Gwyddoniaeth Blwyddyn 7.



GŴYL RYGBI

Cafwyd dechrau da i'r tymor gyda dau dîm Blwyddyn 10 yn ddi-guro mewn twrnament Rygbi ar gaeau'r ysgol. Roedd Ryan Evans, Swyddog Rygbi newydd yr ysgol, wrth ei fodd!



CYNRYCHIOLI CYMRU

Shayne Bevan, Blwyddyn 11, yw'r diweddaraf i gael ei alw i gynrychioli Cymru ym mhencampwriaethau hwylyfyrddio y Byd ar Llyn Garda yn yr Eidal ddiwedd Hydref. Gwych Shayne!

DANNY PENCAMPWR Y BYD

Llongyfarchiadau enfawr i Jo Coward ar chwarae rhan Danny, Pencampwr y Byd yn y dathliadau enfawr diweddar i gofio geni Roald Dahl yn y brifddinas. Ardderchog Jo – dyna anrhydedd aruthrol!



CALENDR Y LLAIS 2017
Golygfeydd hyfryd o Gwm Tawe

Anrheg delfrydol

£4.50

Ar gael gan:

John Evans 01792 842853

YSGOL GYNRADD GYMRAEG PONTARDAWE

Wedi gwyliau'r hanner tymor treuliodd blant Blwyddyn 3 dridiau diddorol ac anturus ar gwrs preswyl ym Mharc Gwledig Margam. Cawsant gyfleoedd gwych i ddysgu am yr amgylchfyd mewn ffordd cyffrous ac uniongyrchol. Gwelsant geirw o bob maint yn carlamu ar ben y mynydd a dysgu am fywyd gwyllt ac am drychfilod bach. Uchafbwynt y cyfnod yno oedd ymdrochi a neidio i'r llacs a chael eistedd o gwmpas y goelcerth a thostio 'marshmallows' blasus.



Chwilio am greaduriaid bach



Ymwelodd Blynnyddoedd 3 a 4 â Chapel y Tabernacl ym mis Hydref fel rhan o'u gwersi Addysg Grefyddol, a thema'r 'Cynhaeaf'. Cynhaliwyd oedfa o dan ofal y Parchg Owen Pugh, y gweinidog yno. Diolch Mr Pugh. Bu cyfle i gofio am anffodusion lleol trwy gyfrannu at y Banc Bwyd sydd wedi ei leoli yn y Tabernacl. Diolch blant am feddwl amdanynt.



Cyfraniadau i'r Banc Bwyd

Garddio gyda Gareth

Pan benderfynais ffurfio busnes garddio, roeddwn i eisiau rhoi pwyslais ar ddarparu gwasanaeth gwyrdd a naturiol, gan ddefnyddio offer penodol a dulliau newydd a thraddodiadol i gyflawni'r nod hwn. Mae symudiad cynyddol sy'n annog agwedd mwy cyfannol tuag at arddio. Mae llawer o fentrau ac erthyglau papur newydd yn ein dysgu i adael pentyrrau pren i greaduriaid aeafgysgu a chael lloches, adeiladu blychau gwenyn a gwestai chwilod i ddenu pryfed buddiol i'r ardd, ac yn tyfu planhigion sy'n denu peillwyr i'ch llain.



Gyda'r nod hwn, rwyf wedi llunio rhestr o fesurau y gallwn ni i gyd eu defnyddio yn ein gerddi i gynnig help llaw i natur.

PALMENTYDD ATHRAIDD

Wedi'u gwneud o blastig wedi'i ailgylchu, mae'r palmant hwn ar gael mewn sawl siâp a maint. Y rhai mwyaf cyffredin yw blociau 1m sgwâr sy'n medru plethu gyda'i gilydd. Mae'n bosib eu llenwi â phridd neu grafel sydd yn cynnig ateb gwydn hir dymor. Gallant hyd yn oed gael eu defnyddio ar gyfer manau parcio ac maen nhw'n llai llithrig na byrddau cerdded (*decking*). Nid yw'r blociau yn gadael i ddŵr glaw dreiddio, sydd yn creu llai o siawns o lifogydd. Mae'u pris yn rhesymol iawn ac yn hawdd i'w gosod.

PERTHI BRODOROL

Y mathau o glawdd mwyaf cyffredin yn y DU yw conwydd (fel arfer leylandi), prifet, a llawryf. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu dewis am eu tyfiant chwim a'u natur bytholwyrdd. Ceir llawer o rywogaethau gwahanol sydd yn llawer mwy buddiol i fywyd gwyllt, ac y gellir eu defnyddio i goginio. Gallwch ddewis un sydd yn edrych yn fwy ffurfiol h.y. y ddraenen wen, ffawydden neu oestrwydden sydd yn hawdd eu trin. Mae'r ddwy goeden olaf hefyd yn cadw eu dail hydref nes bod dail newydd yn blaguro yn y gwanwyn. Mae clawdd cymysg sy'n cynnwys draenen ddu (ar gyfer jin eirin), afalau surion (ar gyfer jeli), eirin (ar gyfer jam neu diod sy'n blasu fel Ribena), rhosyn gwyllt (ar gyfer surop), ysgawen (ar gyfer surop, gwin a diod flasus), collen (ar gyfer cnau cob), ac eirin, ceirios a gelyd gwyllt (ar gyfer jamiau, gwirodydd a suropau). Fe fydd y rhain yn creu lle addas i fywyd gwyllt hefyd.

DILEU TACLUSO'R HYDREF

Wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben a'r gaeaf ar y gorwel mae'n demtasiwn i dorri lawr unrhyw wrysgen neu blanhigion a dail sydd wedi marw nôl a'u llosgi. Oedwch am eiliad ac ystyriwch beth mae'r Hydref yn cyfrannu i'r ardd: cysgod naturiol i bryfed ac ysglyfaethwyr bach i'w gwarchod rhag gaeafau oer Cymru. Mae tomwellt i gadw gwres a lleithder yn haenau uchaf y pridd, a bwyd i fwydod i'w dorri i lawr a'i gymryd yn ôl dan wyneb y lawnt fel gwrtaith. Mae'n bosib hefyd i chi gasglu eich dail mewn bag du, gwneud sawl twll ynddo, a'i adael am 12-24 mis. O ganlyniad fydd toddai (leafmould) aromatig; safonol gennyh i helpu gwella ansawdd eich pridd neu'ch lawnt.

Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r erthygl hon. Os hoffech siarad am hyn neu unrhyw fater sy'n gysylltiedig â choed, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Gareth Thomas

Gwasanaeth Garddio Hedd

Garddio, torri coed a thocio perthi
Cysylltwch â Gareth Thomas
07877 620574 • info@hedd.wales

CYLCH CINIO CWM TAWWE

Mae'r flwyddyn hon, sef y 40fed yn hanes Cylch Cinio Cwm Tawe wedi bod yn dra llewyrchus hyd yn hyn, ac wedi'r toriad am yr haf cafwyd cyfarfodydd ardderchog ym mis Medi a'r Hydref.

Yng nghyfarfod mis Medi y gŵr gwadd oedd **Garry Nicholas**, Llan-non ger Y Tymbl. Mae Garry yn ffigur amlwg ym myd diwylliannol Cymru, ac ef yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw Llywydd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol. Oddi ar cyfnod ei blentynodod o dan arweiniad ei rieni hyd y presennol mae

Garry wedi bod yn gefnogwr brwd i'r eisteddfodau, boed fawr neu fach, fel cystadleuydd ac yna fel gweinyddwr. Yn ei araith wych soniodd am y dylanwadau a fu arno a'r profiadau amrywiol a gafodd yn ystod ei fywyd, ac fe gofir am ddiweddglu ei sgwrs am hydoedd gan yr aelodau, pan gafwyd

esiampol o'i ddawn eisteddfodol a'i gof eithriadol mewn adroddiad penigamp a barodd i'r aelodau chwerthin yn iach, a'u hedmygedd o'r siaradwr yn uchel iawn. Noson i'w chymharu â'r goreuon o'r areithiau gwych a glywyd yn ystod deugain mlynedd bodolaeth y Cylch Cinio.

Yng nghyfarfod mis Hydref roedd y Llywydd, John Evans, wedi gwahodd rhywun amlwg ym myd y campau, sef Nigel Owens, y dyfarnwr rygbi byd-enwog. Ond yn anffodus gorfu iddo drefnu siaradwr arall oherwydd galwadau eraill ar Nigel Owens. Fe drodd y Llywydd i fyd pêl-droed, a gan fod tîm pêl-droed Cymru wedi serennu yn ddiweddar fe drefnwyd gwahodd y brawd **Tim Hartley** o Gaerdydd sydd wedi gwyllo a chefnogi Cymru yn ddi-dor, gartref ac oddi cartref ers 1999. Dyna yw cefnogwr brwd! Dyddiau anodd neu beidio, ac roedd hi'n ddifyr gwrando arno'n sôn am y gwahanol wledydd a'r amrywiol brofiadau a gafodd ef ac amryw eraill mewn gwledydd fel Bosnia, Azerbaijan, a Gogledd Corea. Diddorol oedd clywed am eu gweithgarwch fel grŵp yn dwyn rhoddion i bobl anghenus yn y gwahanol wledydd tra ar y teithiau pêl-droed, ac roedd hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y derbynwyr.



Garry Nicholas a John Evans



John Evans, Tim Hartley ac Alun Bevan

Y GYMRAEG - GWASANAETHAU GWael A'R HAWL I GWYNO

Mae gan bawb yr hawl i gwyno am dderbyn gwasanaeth Cymraeg gwael oddi wrth sefydliadau ac ers diwedd Mawrth 2016, mae'r hawl hwnnw ar waith o dan y Rheoliadau sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Os ydych wedi cyrraedd y pwynt lle'r ydych am gwyno, mae'n amlwg fod rhywbeth wedi mynd o'i le ac wedi'ch corddi neu'ch siomi ac sydd angen sylw'r sefydliad i'w ddatrys. Ond os ydych am gwyno, beth yw'r ffordd orau o wneud hynny? Ble i ddechrau?

Efallai mai'r pwynt cychwynnol yw ystyried pa ganlyniad yr hoffech ei gael. Ydy'r gŵyn am un peth syml sydd wedi mynd o'i le, neu a yw am ddiffyg y sefydliad dro ar ôl tro i ystyried y Gymraeg a thrin yr ieithoedd yn gyfartal?

Gadewch i ni ddefnyddio gwefannau yn enghraifft ymarferol. Os ydych am gwyno bod gwefan sefydliad yn uniaith Saesneg, efallai mai at y sefydliad ei hunan dylech anelu'r gŵyn i gychwyn.

Dylai prosesau cwyno sefydliad gymryd llai na mis i'w cwblhau, ac erbyn i chi dderbyn ymateb, ac os yw'r ymateb yn bositif, bydd y tudalen wedi'i gyfieithu ac ar-lein. Gallech hyd yn oed ystyried e-bostio'r sefydliad yn gyffredinol i gychwyn yn hytrach na chwyno, a gweld beth yw'r ymateb.

Cymharwch hyn gyda chwyno i'r Comisiynydd am yr un peth. Mae prosesau cyfreithiol y Comisiynydd yn golygu cychwyn achos swyddogol sy'n gallu cymryd misoedd i'w orffen, gyda gohebiaeth yn mynd rhwng yr achwynydd, y sefydliad a'r Comisiynydd i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd ymchwilio pob un gŵyn sy'n cael eu cyflwyno, beth bynnag yw eu maint a'u natur.

Erbyn i'r holl broses ddod i ben a'r Comisiynydd efallai'n cytuno gyda'r achwynydd fod y sefydliad ar fai, gall y sefydliad fod wedi cyfieithu a chywiro'r wefan dan sylw fisoedd yn ôl, sy'n meddwl bod yr ymarfer wedi costio miloedd o bunnoedd o arian cyhoeddus i weithredu er i'r broblem ddiflannu ers amser. Mae hyn wedi digwydd yn barod i nifer o sefydliadau o ran arwyddion ffyrdd er enghraifft, rhai ohonynt am waith dros dro oedd wedi'i gwblhau a'r arwyddion wedi mynd, ymhell cyn i'r gŵyn ddod i ben.

Ond os oes nifer o enghreifftiau o bethau tebyg gan sefydliad, ac nid yw cwyno wedi gweithio na newid dim - e.e. adrannau cyfan o'i wefan dal yn uniaith Saesneg ar ôl cwyno ar fwy nag un achlysur - dyna'r pryd y gall cwyn i'r Comisiynydd fod yn werthfawr, gyda'r holl dystiolaeth wrth gefn i brofi patrwm o weithredu yn erbyn rheoliadau ac egwyddorion y Safonau.

Ystyriwch mewn achos felly pa mor gryf bydd eich cwyn i'r Comisiynydd os ydych yn gallu profi bod eich cwyn i'r sefydliad wedi methu newid agweddau, ymarfer a systemau.

Mae'n fater o gymesuredd hefyd - pa ffordd o gwyno fydd yn arwain at ganlyniad boddhaol i chi, mewn cyn lleied o amser â phosibl ac yn helpu arbed rhywbeth tebyg rhag digwydd yn y dyfodol?

Mae cwyno'n ysgrifenedig neu drwy e-bost llawer mwy effeithiol na galwad ffôn am nifer o resymau. Mae'n llawer mwy eglur i bawb i nodi pwyntiau'n rhesymol yn ysgrifenedig a llawer mwy tebyg y caiff pob rhan o'r gŵyn y sylw cywir. Ar wahân i'r emosiwn y tu ôl i gwynion dros y ffôn, lle gall eich rhwystredigaeth neu'ch agwedd neu ymateb y sefydliad gael eu camddeall, gan amlaf nid oes cofnod llawn o'r sgwrs ychwaith. Tra bod cwyn ysgrifenedig mewn llythyr neu ebost yn brawf parhaol a'r drafodaeth ar gael i bawb.

Bydd gan bob sefydliad fanylion ar eu gwefannau o ran sut i gwyno'n ysgrifenedig, drwy e-bost neu dros y ffôn iddynt. Gallwch gwyno i'r Comisiynydd trwy ddefnyddio'r linc: www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Cwyno/Pages/Ffurlflen-cwyno.aspx

Cofiwch, **eich dewis chi fel unigolyn** yw'r dull a'r ffordd o gwyno ac i bwy. Bwriad yr erthygl yw i'ch cynorthwyo i gwyno yn y modd gorau i'ch achos chi, er mwyn cael y canlyniad cywir.

DIGWYDDIADUR CWM TAWE

15 TACHWEDD: "CHWERTHIN YN EI LLAWES: HIWMOR YN NOFLAU'R GYMRAES"

Sgwrs gan Dr Mair Rees, Casnewydd. Noson a drefnir gan Ferched y Wawr Clydach i ddechrau am 7y.h. yn Neuadd y Nant, Clydach.

18 TACHWEDD: GIGS Y GWACH: BRIGYN

Gig am ddim yn Nhafarn y Gwachel, Pontardawe i ddechrau am 8.30y.h. Croeso i bawb!

18 TACHWEDD: JACS YN JOIO - NOSON YNG NGHWMNI ANEIRIN KARADOG

Noson yng nghwmni Bardd y Gadair 2016 yn Nhŷ Tawe, Abertawe. Drysau'n agor am 8.00y.h. Mynediad yn £5. Am fwy o fanylion, ffoniwch 01792 460906.

19 TACHWEDD: GWNEUD CLUSTOGAU SIAP CALON

Rhwng 10y.b a 4y.p. yn yr Institiwt Gorseinon byddwn yn gwneud clustogau siap calon ar gyfer merched sydd wedi dioddef triniaeth cancr fel rhan o Ddathliad Aur y mudiad.

21 TACHWEDD: GWRES Y GAD A HEDD YR EISTEDDFOD

Achlysur anffurfiol a chynnes i ddathlu llwyddiant Aneirin Karadog yn cipio Cadair Eisteddfod Sir Fynwy a'r Cyffiniau eleni. Cyfle gwych i wrando ar Aneirin yn darllen rhai o'i gerddi yng nghwmni Tudur Dylan a chyfeillion eraill fydd am ddathlu ein prifardd newydd. Darperir lluniaeth ysgafn a mynediad am ddim. Noson i ddechrau am 7y.h. yn Nhŷ'r Gwrhyd, Pontardawe.

23 TACHWEDD: FFAIR NADOLIG YSGOL GYFUN GYMRAEG YSTALYFERA

Perfformiadau gan gôr a band pres yr ysgol, stondinau anrhegion o bob math, crefftau a mwy. Mynediad yn £2 i oedolion ac am ddim i blant. Ffair i agor am 4:30y.p.

24 TACHWEDD: FFAIR NADOLIG

Cynhelir am 2y.p. yn Eglwys y Santes Fair, Clydach.

25 TACHWEDD: OLRHAIN BYWYD A GWAITH GWENALLT

Bydd aelodau Cangen Merched y Wawr Pontardawe yn ymuno ag aelodau Cangen Lôn Las yng Nghanolfan Gelli Gardens, Y Gellifedw, am 7y.h. Bydd Ann Rosser ac eraill yn olrhain hanes Gwenallt drwy ddarllen a thrafod ei farddoniaeth.

25 TACHWEDD: FFAIR NADOLIG YGG Y WERN, YSTALYFERA

Ffair i agor am 3.30y.p. Er mwyn trefnu gofod ar gyfer stondin, ffoniwch Michelle ar 07513 159535.

30 TACHWEDD: FFAIR NADOLIG YGG GELLIONNEN, CLYDACH

Amrywiaeth o stondinau a groto Siôn Corn. Ffair yn agor am 3.30y.p. Croeso cynnes i bawb. Er mwyn trefnu gofod ar gyfer stondin, ffoniwch 01792 845589.

30 TACHWEDD: TE AC EMYNAU

Cynhelir yn Neuadd y Nant, Clydach rhwng 2y.p. a 4y.p. dan nawdd Tŷ Croeso a'r Wesle Guild.

30 TACHWEDD: CYNGERDD NADOLIG GAN GÔR Tŷ TAWE

Noson i ddechrau am 7y.h. yng Nghapel y Nant, Clydach.

3 RHAGFYR: FFAIR NADOLIG Tŷ'R GWRHYD, PONTARDAWE

Amrywiaeth o stondinau a groto Sion Corn ar agor rhwng 10y.b. a 2y.p. Croeso cynnes i bawb. Er mwyn trefnu gofod ar gyfer stondin, ffoniwch 01639 763818.

13 RHAGFYR: BORE COFFI MERCHED Y WAWR CLYDACH

Cynehlir am 10.30y.b. yn Neuadd y Nant gyda phlant YGG Gellionnen yn ein diddanu.

16 RHAGFYR: JACS YN JOIO – Y GWDIHSWS A BROMAS

Gig yn Nhŷ Tawe, Abertawe. Drysau'n agor am 8.00y.h. Mynediad yn £5. Am fwy o fanylion, ffoniwch 01792 460906.

POB BORE DYDD MAWRTH: CYLCH TI A FI Y NANT

Cynhelir yn Neuadd y Nant, Clydach rhwng 9 – 11y.b. Croeso i bawb.

POB BORE MAWRTH: CAFFI CYMRAEG YGG GWAUN CAE GURWEN

Cyfle i ddefnyddio, ymarfer ac i wella eich Cymraeg. Croeso i siaradwyr rhugl, dysgwyr a'r di-Gymraeg rhwng 9y.b. a 10.30y.b. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01639 763819.

POB NOS FAWRTH: TWRW TAWE

Cyfle gwych i bobl ifanc ganu, perfformio a chymdeithasu trwy'r Gymraeg. Mae pobl ifanc blynyddoedd 4 i 9 yn cyfarfod rhwng 18.30y.h. a 20.00y.h. tra bod pobl ifanc Blwyddyn 10 ac uwch yn cwrdd rhwng 8 a 10 yr hwyr yn Ffestri Tabernacl, Treforys. Ffoniwch 01792 460906 am fwy o fanylion.

POB BORE MERCHER: CYLCH CANU YSGOL Y CRIBARTH

Grŵp i rieni a phlant bach yn Ysgol y Cribarth, Abercraf rhwng 8.50y.b. a 10.15y.b. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01639 763819.

POB DYDD MERCHER: CLWB IEUENCTID CYMRAEG CASTELL-NEDD

Clwb ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7+ sy'n cyfarfod yn Neuadd Cymunedol Castell-nedd rhwng 6.30y.h. a 8.00y.h. £1 y sesiwn. Am fwy o fanylion cysylltwch â Nia Johns ar 07500 607408.

POB DYDD IAU: SIOP SIARAD I DDYSGWYR

Siop Siarad y Dysgwyr yn Nhŷ Croeso, Clydach, pob bore lau rhwng 10.00 a 11.30y.b. £1 y sesiwn.

Croeso i chi anfon manylion eich digwyddiadau at y *Llais* er mwyn iddynt gael eu rhestru yma a chael sylw eich cyddarllenwyr. Cysyllter â Gwenno Ffrancon ar 01792 842062 neu gwenno_ffrancon@hotmail.com

Ariennir *Llais* yn
rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAG

Lansiad Swyddogol Tafod Tawe

Ar fore dydd Gwener, 16eg o Fedi 2016, diwrnod coffáu Owain Glyndŵr, lansiwyd Siarter Iaith ysgolion Cymraeg Mamiath Abertawe, sef Tafod Tawe. Cynhaliwyd bore byrlymus yn Y Neuadd Fawr ar Gampws y Bae, Prifysgol Abertawe.



Daeth cynrychiolaeth lu o blant, athrawon a phrifathrawon o bob ysgol gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg y sir ynghyd â gwahoddedigion i ymuno yn y dathlu. Pwrpas a nod Tafod Tawe yw ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau a gwneud iddynt sylweddoli bod manteision addysgol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol wrth siarad Cymraeg a bod yn ddwyieithog.

Mae'r fenter gyffrous yma wedi ei rhannu i dair haen gynyddol ac heriol ac fe fydd yr ysgolion yn ymdrechu i gynnal gweithgareddau Cymraeg a Chymreig eu naws drwy gyflawni amrywiol dargedau er mwyn cyrraedd y safle efydd, arian ac aur mewn oddeutu tair blynedd. Fe fydd swyddogion addysg y sir yn cydweithio gyda'r plant a'r ysgolion i ddarparu adloniant hwyliog yn rheolaidd drwy'r flwyddyn fel eu bod yn gwneud defnydd llawn o'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.

I ddechrau'r dathlu ac i'n hysbrydoli am Gymreictod fe wnaeth Yr Athro Mererid Hopwood ein hannerch gyda chyflwyniad a thrafodaeth ddiddorol a difyr ar y testun 'Beth yw iaith?' Yn ôl Alaina o Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-Lan yr oedd yn "hoff iawn o weld Mererid Hopwood" a dywedodd ei ffrind Haiden ei bod hi'n "gyfle arbennig i siarad Cymraeg." Yn dilyn toriad y bore, ac ar ôl cael cyfle i flasuo cacennau arbennig Tafod Tawe, cafodd y plant eu rhannu i'r ddau glwstwr ysgol uwchradd sef Bryn Tawe a Gŵyr er mwyn mynychu gweithgareddau Cymreictod. Darparodd y Prifardd Aneirin Karadog, enillydd y Gadair eleni yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni, weithgaredd rap ac fe wnaeth Yr Athro Mererid Hopwood, yn ei gweithgaredd hi, ganolbwyntio ar y ddawn o ddweud stori a tharddiad cofnodi'r straeon Cymraeg cyntaf.

I gloi'r bore chwaraewyd clip fideo i'r gynulleidfa yn cynnwys cyflwynwyr a phobl enwog Cymraeg megis Nigel Owen, Iwan Griffiths, Owain Williams, Elis Wyn Davies, Martyn Geraint a Dewi Pws yn dymuno pob lwc i Tafod Tawe.

Cyn, ac yn dilyn, dathliad lansiad Tafod Tawe, derbyniodd pob ysgol gynradd ac uwchradd hanner diwrnod o sesiwn chwaraeon wedi ei deilwra yn arbennig ar eu cyfer gan yr Urdd. Yn ogystal â hyn, ac yn ystod yr un cyfnod, perfformiodd gwmni drama addysgiadol 'Mewn Cymeriad' sioeau ar Robert Recorde, Yr Arglwydd Rhys ac Owain Glyndŵr ym mhob ysgol hefyd. Yn wir, bu'n amser prysur dros ben.

Diolch i bawb a gymerodd ran a chefnogi'r lansiad. Edrychwn ymlaen at y dathliad nesaf!

Jane Altham-Watkins

DERBYN Y LLAIS / CALENDR DRWY'R POST 2017

Os ydych am dderbyn y *Llais* drwy'r post am y flwyddyn
2017 y tâl fydd £12.

Yn ogystal mae calendr lliw y *Llais* ar gael – lluniau
godidog o'r ardal – pris £5.00

Enw

Cyfeiriad

..... Côd Post

Amgaeaf siec am £

Llais £12

Calendr..... copi @ £5.00 £..... (Nodwch sawl copi)

Sieciau taladwy i LLAIS i'w
danfon at

Gareth Richards,

Gwasg Morgannwg

Ystad Ddiwydiannol Mynachlog Nedd,

Castell-nedd, SA10 7DR

01792 815152

gwasgmorgannwg@gmail.com



Cigyddion Ponty Butchers

71 Herbert Street
Pontardawe

Telephone:

01792 863197

**Llawer i'w gynnig gan eich
Cigydd Llwyddiannus**



Pencampwr

Bacwn a Gamwn

wedi eu halltu gartre

Gwir Flas

Cymru y

Dewch i'n gweld